

CAROLAU

CAROL Y PLYGAIN

A'R bore yn felyn
I'r delyn y down;
I bêr sain ei thannau,
O ffrindiau! Cyffrown,
Wrth gofio ga'dd plentyn,
Yn Rhosyn, yn rhad,
Ei eni mewn cardod
A duwdod yn dad.

O, clywer y cordiau
A'u seiniau o sawr,
I'r Brenin, i'r Alffa,
Omega, y Mawr;
Fel d'wedodd Eseia,
Y lleia' fo'n llyw;
Yr hwn, er tro garw,
O farw bu fyw.

I'r nodau benthycwn
Ein byrdwn yn bur;
Cyd-ganwn i'r Seilo
Wrth gofio ei gur;
Er mwyn ein heneidiau
Fu gwae y Duw gwyn;
O frad Gethsemane
I frawdle ar fryn.

Yn llon ddigyfeiliant
Rhown loniant yn lân;
Cans Duw ydyw'r delyn,
A'i gymun yw'r gân;
Gorfoledd ei alaw
Ni ddaw byth i ben;
Heb gystudd, heb gwestiwn,
Ymunwn, AMEN.

PEREDUR GLYN

AGORWYD PRIFFORDD RYDD

AGORWYD priffordd rydd
I dir llawenydd llon
I rai dan Sinai sydd
Bob dydd yn brudd eu bron;
Rhai gwael eu gwawr
Dan ofnau mawr
Euogrwydd cry'
Hen galon ddu
I'w llethu i'r llawr.

O wele'r Cyfiawn cu
A lariaidd blyg i lawr
Gael i bechadur du
Ddyrchafu i fyny'n fawr.
Y Meichiau'n gaeth
I dalu y daeth,
A'r euog prudd,
Drwy olwg ffydd,
Yn rhydd yr aeth.

Bu farw'r Oen ei Hun
O ryfedd rin ei ras,
Mab Duw i gadw dyn –
Ei elyn cyndyn cas.
Ca'dd lawer loes
Drwy ysig oes
Dros enaid drud
Tra bu'n y byd,
O'i grud i'w groes.

Gogoniant moliant mawr
Yn awr i'r Tri yn Un
Sy'n llywio nef a llawr
Am ddirfawr ras i ddyn.
Â'r ffordd drwy'r llen
I'r nefoedd wen;
I'w groes a'i glwy'
Rhoed miloedd mwy
Eu mawl. Amen.

ANHYSBYS

AR FORE DYDD NADOLIG

AR fore dydd Nadolig
Esgorodd y Forwynig
Ar Geidwad bendigedig;
Ym Methlem dref y ganwyd ef,
Y rhoes ei lef drosom ni.
O Geidwad aned,
Fe wawriodd arnom ddydd.

Dros euog ddyn fe'i lladdwyd
Ac mewn bedd gwag fe'i dodwyd
Ar ôl y gair 'Gorffennwyd';
Ond daeth yn rhydd y trydydd dydd
O'r beddrod prudd drosom ni.
O Geidwad aned,
Fe wawriodd arnom ddydd.

O rasol Fair Forwynig,
Mam Ceidwad bendigedig,
Yr Iesu dyrchafedig.
Ger gorsedd nef eiriola'n gref,
A chwyd dy lef drosom ni.
O Geidwad aned,
Fe wawriodd arnom ddydd.

TRADDODIADOL O'R CEINEWYDD

DOETHION O'R DWYRAIN

AR fryniau gwlad y dwyrain,
Yng nghanol gwyll y nos,
Trwy gaddug du yr wybren
Disgleiriai seren dlos;
'Mae'n arwydd, eglur ddigon,'
Medd doeth, dysgedig rai,
'Fod brenin wedi dyfod
A thangnef yn ddi-drai.'

Rhyw ddarlun oedd y seren
I'w cychwyn ar eu hynt,
Fel colofn yr anialwch
Fu'n arwain Israel gynt;
Mae Ysbryd Duw yn gweithio
O hyd, yn nheulu'r llawr,
I'w tywys a'u cyfeirio
At draed y Ceidwad mawr.

'Rôl dod i balas Herod,
Rhyw daerni sy'n eu llef
Am Frenin yr Iddewon,
'Pa le y ganed ef?'
Ond llewyrch Seren Bethlehem
A lonnodd nos eu bryd,
A'u harwain wnaeth yn ddiogel
I fro Creawdwr byd.

Syrthiasant yno'n isel,
Wrth weld yr wylaidd fam,
A'r glaer Seceina'n hofran
O gylch y bach di-nam;
Offryment eu hanrhegion:
Trysorau gwerthfawr, drud,
Mewn gwir addoliad dwyfol
Gerbron Gwardwr byd.

Mae Duw yn dysgu'r doethion
Y ffordd yn ôl i'w gwlad,
Er gochel pob rhyw gynllwyn
O eiddo dyn, a brad;
Glân engyl rydd i wyllo
Y Bychan ar bob llaw,
Nes cwblhau pob bwriad
Wnaed yn yr arfaeth draw.

Cymru'r Plant, Rhagfyr 1913

WINNIE ROBERTS, Blaenau Ffestiniog

AR GYFER HEDDIW'R BORE

AR gyfer heddiw'r bore
'N faban bach, yn faban bach,
Y ganwyd gwreiddyn Jesse
'N faban bach;
Y Cadarn ddaeth o Bosra,
Y Deddfwr gynt ar Sina,
Yr Iawn gaed ar Galfaria
'N faban bach, yn faban bach,
Yn sugno bron Maria
'N faban bach.

Caed bywiol ddŵr Eseciel
Ar lin Mair, ar lin Mair,
A gwir Feseia Daniel
Ar lin Mair;
Caed bachgen doeth Eseia,
'R addewid roed i Adda,
Yr Alffa a'r Omega
Ar lin Mair, ar lin Mair,
Mewn côr ym Methlem Jwda
Ar lin Mair.

Mil a Mwy o Emynau

Gorffwyswch, bellach, Lefiaid,
Cafwyd Iawn, cafwyd Iawn,
Nid rhaid wrth anifeiliaid,
Cafwyd Iawn;
Diflannu a wnaeth y cysgod,
Mae'r sylwedd wedi dyfod,
Nid rhaid wrth ŵyn na buchod,
Cafwyd Iawn, cafwyd Iawn,
Na theirw na thurturod,
Cafwyd Iawn.

Ystyriwn gariad Trindod
O'u gwir fodd, o'u gwir fodd
Yn trefnu'r ffordd y cymod
O'u gwir fodd;
Y Tad yn ethol meichie,
Y Mab yn fodlon diodde,
A'r Ysbryd Glân ei ddonie,
O'u gwir fodd, o'u gwir fodd
Yn tywys Seion adre
O'u gwir fodd.

Diosgodd Crist ei goron
O'i wir fodd, o'i wir fodd
Er mwyn coroni Seion
O'i wir fodd;
I blygu ei ben dihalog
O dan y goron ddreiniog
I ddioddef dirmyg llidiog
O'i wir fodd, o'i wir fodd,
Er codi pen yr euog,
O'i wir fodd.

O cofiwn Gethsemane
Lle bu ef, lle bu ef
Yn chwysu'r gwaed yn ddagre,
Lle bu ef,
Ac am y fflangell greulon
Yn arddu cefn y cyfion
Ar hyd heolydd Seion,
Lle bu ef, lle bu ef,
A'i gnawd yn gwysi hirion,
Lle bu ef.

Hawdd olrhain ei gerddediad
Hyd y llys, hyd y llys,
Gan lwybr coch orlifiad
Hyd y llys,
Lle cafodd Iesu cyfion
Ei watwar gan elynion
A tharo'i wyneb tirion
Yn y llys, yn y llys,
Er dirmyg ar ei berson
Yn y llys.

O'r llys at orsedd Pilat
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Taenellwyd gwaed ein Ceidwad
Er ein mwyn;
Lle bu y Duw anfeidrol
Yn goddef barn angheuol
Gan ei greadur meidrol
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Yn fud fel caeth troseddol
Er ein mwyn.

Mil a Mwy o Emynau

O dacw'r Oen mewn dalfa
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Yn esgyn pen Calfaria
Er ein mwyn,
I ddioddef dwyfol loesion
Ar ben y groes rhwng lladron,
Y bicell fain a'r hoelion
Er ein mwyn, er ein mwyn,
A cholli gwaed ei galon
Er ein mwyn.

Gorweddodd yn y beddrod
Er ein mwyn, er ein mwyn,
I dynnu'r damp o'i waelod
Er ein mwyn;
Yn awr mae ar ei orsedd
Yn cynnig rhad drugaredd,
Maddeuant a thangnefedd
Er ein mwyn, er ein mwyn,
I'r adyn mwyaf ffiadd,
Er ein mwyn .

Cyfiawnder a fodlonwyd
'Waith ei Iawn, 'waith ei Iawn,
A'r ddeddf a anrhydeddwyd
'Waith ei Iawn;
Mae uffern fawr yn crynu
A'r durtur bêr yn canu
A Duw a dyn yn gwenu
'Waith ei Iawn, 'waith ei Iawn,
Mewn hedd yn mherson Iesu
'Waith ei Iawn.

Am hyn, bechadur, brysia
Fel yr wyt, fel yr wyt,
I 'mofyn am y noddfa
Fel yr wyt;
I ti'r agorwyd ffynnon
A ylch dy glwyfau duon
Fel eira gwyn yn Salmon,
Fel yr wyt, fel yr wyt,
Gan hynny tyrd yn brydlon
Fel yr wyt.

DAVID HUGHES ('Eos Iâl' 1794? – 1862)

AR HANNER NOS YN GLIR Y DAETH

AR hanner nos yn glir y daeth
Y gân nefolaidd gynt;
I daro'u tannau plygu wnaeth
Angylion ar eu hynt:
'Hedd trwy y byd, ewyllys da
Tirionaf Frenin nef.'
Y ddaear mewn distawrwydd dwys
Wrandawai'r hyfryd lef.

Trwy byrth y nef daw'r rhain o hyd
Ar edyn hedd i lawr,
A nofia'u mawl o'r nefol fyd
Uwch holl flinderau'r llawr:
I lawer dyffryn galar prudd
Ymostwng engyl glân,
Ac uwch na'r holl derfysgoedd sydd,
Y clywir nefol gân.

Mil a Mwy o Emynau

Dan bwys ei bai y ddaear brudd
Riddfanna'n ddwys yn awr;
Dan fawl angylion gormes sydd
Yn ymlid oesau'r llawr;
Y dyn wna gam â dyn, ni chlyw
Ganiadau'r engyl glân;
O gwrando nawr, er gadael Duw,
A chlyw y nefol gân.

E. H. SEARS (1810 – 76)
efel. W. EVANS JONES (1854 – 1938)

RHOSYN DUW

AR hen bren o feddrod Adda,
Du a chnotiog foncyff Jesse,
Impiwyd cainc o nef, a heddiw,
O hosanna, O hosanna,
Wele rosyn Duw.

Yn y nos ddi-sêr, ddiloorgan
Pwll y gaea', ym musgrellni
Hen y flwyddyn, dacw Faban,
Mab Maria, O Sibila,
Ganwyd Brenin nef.

Caned robin ar yr eira,
Caned Melchior i'w gamelod,
Caned Fyrsil gyda Bwdha:
Eia Jesu, Alelwia,
Clod i'w enw, clod.

SAUNDERS LEWIS (1893 – 1985)

DIM LLE YN Y LLETY

AR ryfedd daith flinedig, faith
Bu Mair a Joseff, trist yw'r ffaith,
Cyn gweled Bethlem dref;
Mynd heibio iddynt wnâi y llu
Heb ystyr fod y ddeuddyn cu
Ar neges dros y nef,
Ac oerach na'r îa ar y palmant fu'r gair:
'Dim lle yn y llety i Joseff a Mair.'

Dolefai'r gwynt o lwyn i lwyn
Tra Mair mewn ing sibrydai'i chŵyn
Yn ddistaw wrth y nos;
Yn sŵn gorfoledd tyrfa fawr
Ei grudd oedd laith gan dagrau nawr
Fel grudd y lili dlos;
Y gair a glybuwyd dywyllodd yr aer:
'Dim lle yn y llety i Joseff a Mair.'

Agorwyd drws y preseb tlawd
I Mair a Joseff, ddrwg ei ffawd,
A'r nos yn duo'r nef,
Ac yno mewn tawelwch trist
A thlodi, ganwyd Iesu Crist
Tu fas i rwysg y dref;
Sisialai yr awel rhwng cangau yr yw:
'Dim lle yn y llety i Iesu Fab Duw.'

Mae'r byd mewn gorymdeithiau fyrdd
Yn dringo hyd drofaog ffyrdd
I wyliau clod a bri;
Ni sylwa ar gardotyn llwm
Yn gam ei gefn o gwm i gwm,
Ni chlyw ei ingol gri,
Cau drws ar y truan wna balchder y byd:
'Dim lle yn y llety i'r Iesu o hyd.'

HUMPHREY JONES ('Bryfdir' 1867 – 1947)

AR WYL Y NADOLIG

AR wyl y Nadolig, i'r Crist rhoddwn glod.
Ni wybu'r canrifoedd, ni welwyd is rhod
Un wyrth fwy rhyfeddol na'i ddyfod gwyn ef,
Y Baban a anwyd ym Methlehem dref.

Ar wyl y Nadolig, dyrchafwn ein cri
At Dduw, dros ein byd a'i drueiniaid di-ri'.
Crist ynddo a erys, a gobaith pob llef
Yw'r Baban a anwyd ym Methlehem dref.

Ar wyl y Nadolig, mae'r Iesu ar fynd
Yn achub y byd a throi gelyn yn ffrind;
Gwardwr yfory a'n Llywiwr i'r nef
Yw'r Baban a anwyd ym Methlehem dref.

DAFYDD OWEN (1919 – 2002)

AWN I FETHLEM

AWN i Fethlem, bawb dan ganu,
Neidio, dawnsio a difyrru,
I gael gweld ein Prynwr c'redig
Aned heddiw, Ddydd Nadolig.

Dyma'r Ceidwad a ddanfonwys
Tad tosturi o Baradwys,
I'n gwaredu rhag marwolaeth
Ac i weithio'n iachawdwriaeth.

Awn i Fethlem, bawb i weled
Y dull a'r modd a'r man y ganed,
Fel y gallom ei addoli
A'i gydnabod wedi'i eni.

Ni gawn seren i'n goleuo
Ac yn serchog i'n cyf'rwyddo
Nes y dyco hon ni'n gymwys
I'r lle sanctaidd lle mae'n gorffwys.

Mae'r angylion yn llawenu,
Mae'r ffurfafen yn tywynnu,
Mae llu'r nef yn canu hymnau,
Caned dynion rywbeth hwythau.

Mae'r bugeiliaid wedi blaenu
Tua Bethlem dan lonyddu,
I gael gweld y grasol Frenin;
Ceisiwn ninnau bawb eu dilyn.

F'aeth y Doethion i gyflwyno
Ac i roi anrhegion iddo;
Aur a thus a myrr o'r gore
A'i offrymu ar eu glinie.

Yn lle aur rhown lwyr gred ynddo,
Yn lle thus rhown foliant iddo,
Yn lle myrr rhown wir 'ddifeirwch,
Ac fe'i cymer trwy hyfrydwch.

Awn i Fethlem i gael gweled
Mair a Mab Duw ar ei harffed;
Mair yn dala rhwng ei dwylo
'R Mab sy'n cadw'r byd rhag cwmpo.

RHYS PRICHARD ('Yr Hen Ficer' 1579? – 1644)

DDWYFOL FABAN

AWN i Fethlem gyda'r doethion,
Awn yng ngwawl ei 'Seren ef',
Awn yn wylaidd at y preseb
I groesawu Aer y nef;
Ddwyfol Faban,
Daeth yn dlawd i'n daear ni.

Nid oedd iddo yn y llety
Le i roddi'i ben i lawr,
Ond daeth engyl y Goleuni
At y preseb gyda'r wawr;
Ddwyfol Faban,
Plygent hwythau iddo ef.

Mil a Mwy o Emynau

Er ein mwyn fel hyn y rhoddodd
Duw ei briod Fab i'r byd,
Fel na choller neb a gredo
Ynddo ef, caiff fywyd drud;
Ddwyfol Faban,
Ef yw Crist yr Arglwydd Dduw.

Plygwn ninnau ac offrymwn
Aur a Thus a Myrr yn rhodd,
Rhown ein hun yn gyfan iddo,
Daeth i Fethlehem o'i fodd;
Ddwyfol Faban,
Daeth i farw drosom ni.

ROBERT OWEN (1908 – 72)

BACHGEN A ANED

BACHGEN a aned; Mab rowd in;
Ei enw sy'n Rhyfeddol;
Ar ei ysgwydd ef llywodraeth ga'd:
Duw cadarn, Tad tragwyddol.

Chwilio ei Berson hardd a'i waith
Sy'n orchwyl maith anfeidrol;
Gelwir yma, ac yn y ne'
Ei enw e'n Rhyfeddol.

Dehonglwch hyn, ddysgedig rai;
Rhyfeddu mae'r cenedloedd
P'odd gallsai Mair ei gynnwys ef
Na chynnwys nef y nefoedd.

Duw mawr, Creawdwr dŵr a thir,
I gael ei wir genhedlu
Gan forwyn wnaethpwyd ganddo ei hun,
Fy enaid sy'n rhyfeddu.

Mae holl ddoethineb Duw ynghyd
Yn cwrddydd yn ei Berson;
Nid rhyfedd bod myrddiynau'r nef
Yn ei foli ef yn gyson.

'Roedd doniau ein Duw i gyd fel môr
Dygyfor, heb eu rhifo,
Gynt oll ynghudd, ond yr awr hyn
Trwy'r Iesu yn disgleirio.

WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN (1717 – 91)

MOLIANNWN YR ANFEIDROL GRIST

BETH yw'r clychau sydd yn canu?
Beth yw'r moliant yn y gwynt?
A ddaeth brenin ar ei orsedd
Yn ei rwysg ar ryfedd hynt?
Do, fe ddaeth un mwy na brenin
Atom ni, drueiniaid trist,
Gorfoleddwn a moliannwn
Yr Anfeidrol, Ddwyfol Grist.

A oes iddo wisg frenhinol?
A yw'n haeddu'n moliant mawr?
A oes iddo balas euraidd
Yma ar ein daear lawr?
Na, nid palas, dim ond preseb
Gwael ei lun ym Methlem dref,
Yno'n llwm yn ei gadachau
Gwelwyd Iesu, T'wysog Nef.

Gawn ni weld y baban bychan?
Gawn ni blygu wrth ei grud?
Beth a roddwn yn anrhegion,
Ai trysorau gwerthfawr drud?
Na, rhoi'n bywyd oll yn gyfan
Ar ei allor ef bob awr,
Dyna'n unig mae'n ei chwennych
Gan annheilwng deulu'r llawr.

A. L. HUGHES

BETHLEM OEDD YN CYSGU

BETHLEM oedd yn cysgu
Amser maith yn ôl,
Nid oedd gwynt nac awel
Amser maith yn ôl.

*Daeth y Baban mwyn i'n byd
A phreseb llwm oedd iddo'n grud
Mor bell, bell yn ôl.*

Daeth y doethion ato
Amser maith yn ôl,
Dod â rhoddion iddo
Amser maith yn ôl.

Daeth bugeiliaid ffyddlon
Amser maith yn ôl,
At y Ceidwad tirion
Amser maith yn ôl.

D. WYNNE LLOYD

CAROL PLYGAIN

BEUDY di-nod
a'r rhew a'r ôd ar barwydydd,
dau mewn lludded
geisiai nodedd un diwedydd;
esgorodd Mair
yno'n y gwair rhwng magwrydd
ar Fab Gwyrthiol, –
dod â'r Dwyfol i Dre Dafydd.

Yr eira'n drwch
ar dawelwch hwyr y dolydd,
a'r gwynt atgas
â'i wrym a'i ias ar y meysydd;
taer yw'r broffes
ddaw o fynwes y Negesydd,
a golau cry'
yn ariannu nos wybrennydd.

Daw'r goludog
i anwydog fan annedwydd,
tua'r hofel
ar dri chamel, – tri ymwelydd
yno'n plygu,
ânt at Iesu eu Tywysydd
i'r fangre hon
i roi'u rhoddion cyn boreddydd.

Sêr-ddewiniaid
a bugeiliaid gyda'i gilydd
a'r Mab Bychan –
try eu gaea'n ha' tragywydd;
ninnau ganwn,
â llu unwn mewn llawenydd,
yn ein cyni,
daw i'n geni ni o'r newydd.¹

IWAN MORGAN, Ffestiniog, Gwynedd

BLANT ADDA 'MBARTOWCH!

BLANT Adda 'mbartowch!
Deffrowch yn yr ysbryd
I ganu mewn gwynfyd,
Tan dristyd na 'mdrowch;
O dowch, dyma'r dydd.
Mewn ffydd mae'n hoff hael
Y gwynfyd o gael
Y golwg ar Grist;
Heb ffydd a'i goleuni
Nid oes ond tywyllni,
Trueni mawr trist.

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Maldwyn a'r Gororau 2003.

Mil a Mwy o Emynau

Pwy bynnag trwy bwyll
Sy'n canfod rhyw fesur
O lygredd ei natur,
Fe deimla heb dwyll
Mor dda yw Mab Duw;
O'i ddyfod mewn cnawd
Yn Frenin, yn Frawd,
Rhyfeddwn ei fri!
Y Duw uchel fawredd
Yn ddyn isel gwaredd,
Mewn agwedd fel ni!

THOMAS EDWARDS ('Twm o'r Nant' 1739 – 1810)

CLYWCH LAIS AC UCHEL LEF

CLYWCH lais ac uchel lef,
Tôn telynorion nef,
I'r Baban byw, Oen Duw, pan anwyd ef:
Yn seinio islaw'r sêr,
Nadolig bwysig bêr,
Gân beraidd flas, tôn addas, foliant Nêr.
O'r llu nefolaidd weddaidd wawr
Fu'n gweld eu Brenin fyddin fawr,
Yn sugno bronnau'n blentyn,
Sef llwchyn gwael y llawr!
Ac wrth weld hwnnw, enw Iôr,
A'i air amgylchai ymylau'r môr,
Yn gwisgo'r natur ddynol,
Fe ganai'r nefol gôr.

Gweld Barnwr mawr y byd,
Y Gair gan Fair yn fud,
Y Gŵr a'i gwnaeth yn cael magwraeth glyd!
Ei fagu i drechu draig,
Ar rinwedd bronnau'r wraig,
Troi'r llwch yn llaeth, er cryf fagwraeth craig!
Fe synnai'r nefol lesol lu
Am wisgo'u Brenin yn y bru
Mewn corff o bridd daearol,
Y natur ddynol ddu!
Ar y rhyfeddod hynod hyn
Mae'r nefol gwmni'n sylwi'n syn,
Sef geni, marw a chladdu
Duw 'mysg ei deulu'n dynn!

EDWARD JONES, Maes-y-plwm (1761 – 1836)

MOLI'R MAB

CLYWCH, O clywch, engyl nef
Yn cyhoeddi'r Gair,
Ag un llef iddo ef,
Sôn am Faban Mair,
Awn bob un, plygwn glun
Wrth y preseb draw,
Daw pob dyn yn gytûn
Fore ddydd a ddaw.

Rhown, O rhown arno'n bryd,
Credwn ynddo nawr,
Ceidwad byd yn ei grud,
Mab y Duwdod Mawr,
Rhydd ei ddawn inni'n llawn,
Dyrchafedig yw,
Ato'r awn, ninnau gawn
Gymorth iawn i fyw.

Mil a Mwy o Emynau

Dewch, O dewch, llawenhewch,
Brawd a roed i ni,
Ymgryfhewch ac fe gewch
Iesu'n fraint a bri;
Rhown ein Ffydd iddo'n rhydd
Am Nadolig rhad,
Ac am fudd sanctaidd ddydd
Molwn Fab y Tad.

MORFYDD JAMES, Llangynin

EMYN NADOLIG

COFIO wnawn am gân angylion
Ac anrhegion Bethlehem,
Ac am hanes geni Baban,
Un â'r nefoedd yn ei drem:
Dwyfol Air yw Mab Mair
Sydd yn gorwedd yn y gwair.

Boed i'r seren fry ddisgleirio
I'n cyfeirio at y crud,
Lle mae duwdod mewn cadachau,
Lle mae gobaith yr holl fyd;
Torred gwawr ar y llawr
I oleuo'i deyrnas fawr.

Alaw hudol y Nadolig
Sydd yn fiwsig fel erioed,
Mae yn dweud fod Iesu'r preseb
Yn Waredwr i bob oed;
Daeth Mab Duw yma i fyw,
Gorfoledded dynol-ryw.

D. J. THOMAS (1916 – 99)

CAROL

COFIWN am eni ein baban gwyn
A chanu angylion ar ddôl a bryn,
Cofiw'n am Fair yn ymbil â Duw
Am nerth i gychwyn rhyferthwy ei fyw,
A chysgai Bethlem a'i theios clyd
Heb wybod fod Iesu yn crwydro'r stryd.

Ond ysigwyd Herod gan siglo'r crud
A chwalodd ei chwerthin ochneidiau'r byd,
Y seren syfrdanodd holl sêr y nef
A'r bugeiliaid yn baglu i'w ddilyn ef,
Y seren fu'n eirias yng ngweithdy'r saer
Yn galw brenhinoedd i'w breseb gwair.

Cofiw'n Simeon, hen batriarch llwm,
Yn canu gorfoledd ei henaint i hwn,
Ac Anna unig yng ngwyll ei chell
Yn gweled Gwardwr y gobaith gwell,
Mynnwn anadlu ei newydd hoen
A syndod ei seren tros erwau'r boen.

Gorchfygwn hen fyd sy'n dragwyddol drist
A synnwn weld Cymru'n croesawu'r Crist.
Daeth mewn cadachau, aeth mewn drain,
Ond heno, a'n hoes dan y bicell fain,
Seiniwn ein salmau, dyblwn y gân,
Mae hedd di-gledd yn ei ddwylo glân.

GWYN ERFYL (1924 – 2007)

HWIANGERDD

‘**C**WSG, f'anwylaf un,
Cwsg yn dlws dy lun.’
Mair sydd yn canu ei lwli-lw:
‘Engyl y nef, fy mhlentyn annwyl i,
Yn dawel a ganant lwli-lw.
Holl blant y byd, fy mhlentyn annwyl i,
Yn dawel a ganant lwli-lw.’

‘Yma'n dy gawell clyd,
Cwsg yn wyn dy fyd,
Drosot yn gwylio bydd dy fam.’
‘Engyl y nef, fy mhlentyn annwyl i,
Yn dawel a ganant lwli-lw.
Holl blant y byd, fy mhlentyn annwyl i,
Yn dawel a ganant lwli-lw.’

GLADYS WHITRED

cyf. JOHN HUGHES, Rhosllannerchrugog (1896 – 1968)

CÂN MAIR I'W PHLENTYN

CWSG, fy maban mewn cadachau,
Cwsg cyn dyfod loes i'th ran;
Hyd at lety'r ych a'r asyn
Ni ddaw niwed o un man.
Cân angylion sydd i'th suo,
Hwyrrol gân o arall fyd;
Heno mae ar feysydd Bethlem,
Daeth â Duw a dyn ynghyd.

Gorwedd isod yn y preseb
Wnei gan wenu drwy dy hun
Heb gael profi dim o'r dolur
Ar dy ffordd a roir gan ddyn.
Cân angylion sydd i'th suo,
Hwyrrol gân o arall fyd;
Heno mae ar feysydd Bethlem
Daeth â Duw a dyn ynghyd.

Gwyn dy fyd, fy maban mwynlan,
Er pob dolur, er pob croes,
Rhoddwyd iti'r ddawn anfeidrol
I esmwytho ingoedd oes.
Cân angylion sydd i'th suo,
Hwyrrol gân o arall fyd;
Heno mae ar feysydd Bethlem,
Daeth â Duw a dyn ynghyd.

TECWYN ELLIS (1918 – 2012)

CAROL NADOLIG

CYDUNED plant dynion i ganu’u hacenion
Am ddod baban tirion i’n byd,
I’n daear disgynnodd, a’r engyl a ganodd,
A golau ymdaenodd ar grud.
Bugeiliaid a glywsant y nef yn rhoi moliant
A pheraidd ogoniant cytûn;
Fe dorrodd goleuni ar fyd o drueni
Y bore bu geni Mab Dyn;
Y seren wen olau oleuodd y llwybrau
A throi eu hwynebau i’r dre,
Ac yno mewn llety a gwair iddo’n wely
Gorweddai yr Iesu, Mab Ne’.

Ti fyd sy’n grwydredig, na fydd yn ystyfnig,
A chofia Nadolig Mab Duw;
Os hen ydyw’r hanes gwir iawn yw ei neges,
Rhaid gwasgu i’w fynwes i fyw;
O cofia y geni, a thyrd i’w addoli,
Fe wêl ef holl gyni y llawr,
A thafl hunanoldeb, gwêl ynddo y purdeb,
Ac edrych i’w wyneb yn awr;
Mae’n hir ei amynedd, yn fawr ei drugaredd
A rhydd ei ymgeledd i’r trist,
Mae’n gyfaill i’r unig, yn llyw i’r colledig,
Mae hedd yn Nadolig y Crist.¹

D. GLYN LEWIS, Llanwddyn (1916 – 81)

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Bro Myrddin 1974.

CAROL

CYWEIRIER telynau a chwydded y clychau
a llafar fo'r genau i'w glod,
cael Rhyfedd-Gynghorwr i wella ein cyflwr,
ein Dyddiwr mewn annedd ddi-nod.
O breswyl goleuni, i barthau trueni
i weini gollyngdod i'r caeth,
o'i wirfodd i'w alwad, a'i hunanymwadiad,
Ffisigwr Gilead a ddaeth.

Doed cân yr angylion a mawl gwardedigion
ar lanw'r awelon i'n byd,
rhoed nabl ac organ ei nodau yn gyfan
i'r baban, digymar ei bryd.
Awn ninnau'n finteioedd dan wenau y nefoedd
at Awdur yr oesoedd achlân,
gan isel ymgrymu a gwylaidd offrymu
i'r Iesu, ein calon a'n cân.

Cyrhaeddodd y newydd hyd gyrrau'r holl wledydd,
i Seion, Gwardwr a gaed;
rhydd nerth i'r blinderog, esmwythyd i'r llwythog
a'r euog a blyg wrth ei draed.
Dyrchafer ei foliant, cyhoedder ei haeddiant
dan lewyrch gogoniant ei wedd,
yng ngrym ei gyfryngdod, ei ras a'i awdurdod,
i'n daear daw cymod a hedd.

T. ELFYN JONES (1914 – 2008)

CHWI ANGYLION BRO'R GOGONIAINT

CHWI angylion bro'r gogoniant
Ar adenydd uwch y byd,
Dawnsiodd cread i'ch cyfeiliant,
Cenwch heddiw gân y crud.

Gloria in excelsis Deo.

Syllwch fry, holl lu'r bugeiliaid,
Tra bo'ch praidd yn cysgu'r nos;
Daeth eich Duw i blith ei ddeiliaid,
Gwelwch olau'r seren dlos.

Yma'n faban mewn dinodedd,
Wele etifedd Duw ei hun,
Daw'r cenhedloedd at ei orsedd,
Heddiw ganwyd Ceidwad dyn.

JOHN RODERICK REES (1920 – 2009)

YR EMYN PLYGAIN

Daeth dwthwn defosiwn, disglair yw'r pelydrau,
Concrwyd tywyllwch gyda glasiad y dydd;
Lleisiwn yr odlau, tiwnier inni'r tannau,
Dyrchafwn uchel glodydd i Awdur ein ffydd.

A deuwn, datganwn ddiolch ein calonnau
Heddiw am faban sy'n Waredwr i ddyd;
Cyd-orfoleddwn, pynciwn ein caniadau,
Cans atom daeth y Duwdod a dyndod yn un.

Arddelwn ei enw'n bersain mewn cantiglau,
Offrwm gwasanaeth rown i'r Mab yn ei grud;
Casgler y corau, caner melodïau,
Cyd-gordier offerynnau i'r Ceidwad ynghyd.

Ymgrymwn, cysegrwn foliant ein côr-ganau,
Teilwng ohonynt ydyw'r Arglwydd o'r nef:
Ennyd o wynfyd deued o'r carolau
Sy'n datgan ym mhob cytgan fawrhad iddo ef.¹

DAFYDD HUGHES JONES (1921 – 2011)

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Sir Benfro, Tyddewi 2002.

Mil a Mwy o Emynau

DAETH Y CEIDWAD, LLAWENHAWN

DAETH y Ceidwad, llawenhawn,
Gyda'r dorf i Fethlem awn;
Gwelwn yno'r Ceidwad cun
Wedi gwisgo natur dyn.

Gloria in excelsis Deo.

Ganed, do, ym Methlem dref,
Grist, eneinog mawr y nef;
Wele Air y dwyfol Ri,
Iôr y nef, Duw gyda ni.

Clywch! Caniadau engyl sy
Yn datseinio'r nefoedd fry;
Dydd gorfoledd heddiw yw,
Dydd cymodi dyn â Duw.

Dewch, addolwn ger ei fron,
Ef yw Arglwydd daear gron;
Er mor dlawd ei lety yw,
Egwan Ddyn, mae'n gadarn Dduw.

Llafarganed pobloedd byd,
A'r ynysoedd pell ynghyd;
A chydfloeddied côr y nef
Byth ogoniant iddo ef.

D. SILVAN EVANS (1818 – 1903)

AR FORE DYDD NADOLIG

DAW tair o longau hardd eu llun,
A hwyliau gwynion i bob un
Ar fore dydd Nadolig.

Yr arwydd ar bob un o'r tair
Yw Iesu, annwyl Faban Mair,
Ar fore dydd Nadolig.

Ac angel disglair wrth bob llyw
Sy'n canu cân i'r neb a glyw
Ar fore dydd Nadolig.

Y blaenaf un, ei garol yw:
'Gogoniant i'r goruchaf Dduw!'
Ar fore dydd Nadolig.

'Tangnefedd,' gan yr ail, a'r don
Lonydda lle y clywir hon
Ar fore dydd Nadolig.

'Ewyllys da i ddynion,' yw
Y gân gan drydydd angel Duw
Ar fore dydd Nadolig.

Daw'r llongau a'u trysorau drud
I'w rhannu'n rhad i bawb drwy'r byd
Ar fore dydd Nadolig.

Ond llawer un, ni wêl, ni chlyw,
Fe bery'n llwm heb drysor Duw
Ar fore dydd Nadolig.

Ond pe derbyniai pawb y rhodd,
Fe fyddai'r ddaear wrth ei bodd
Ar fore dydd Nadolig.

ELFED (1860 – 1953)

DEFFRO! DEFFRO!

DEFFRO! Deffro! Wele'r seren siriol,
Gwrando, gwrando ar y gloch a'r garol;
Gŵyl y Geni biau'r gân,
Mae'r byd i gyd yn moli;
Canwn ninnau gan addoli
Fore dydd Nadolig.

Deffro! Deffro! Daeth y côr angylion,
Gwrando, gwrando ar eu llon newyddion,
Gŵyl y Geni biau'r gân,
Mae'r byd i gyd yn moli;
Canwn ninnau gan addoli
Fore dydd Nadolig.

Mil a Mwy o Emynau

Deffro! Deffro! Dilyn y bugeiliaid,
'Does dim rhaid gofalu am y defaid,
Gŵyl y Geni biau'r gân,
Mae'r byd i gyd yn moli;
Canwn ninnau gan addoli
Fore dydd Nadolig.

Deffro! Deffro! O'r dwyrain daw'r doethion,
Yn addolgar i gynnig anrhegion;
Gŵyl y Geni biau'r gân,
Mae'r byd i gyd yn moli;
Canwn ninnau gan addoli
Fore dydd Nadolig.

Penillion 1 – 3 ANEURIN JENKINS-JONES (1925 – 81)

Pennill 4 Y GOLYGYDD

DEFFRO, DDAEAR, LLAWENHA

DEFFRO, ddaear, llawenha,
Heddiw ddaeth newyddion da;
Seren Bethlem dirion, dêr,
Ddaeth i lawr o blith y sêr.

*Henffych well i'r bore cun!
Bore prynedigaeth dyn;
Caned holl Jerwsalem,
Ganed Crist ym Methlehem.*

Mae Creawdwr mawr y byd,
Mae Cynhaliwr pawb ynghyd,
Mae Iachawdwr dynol-ryw
Heddiw gyda ni yn byw.

Wele'r awyr oll yn llawn
O aroglau haf brynhawn;
Ar ddisberod syrthiodd cainc
O anthemau'r orsedd-fainc.

Brenin y brenhinoedd yw;
Ble mae'r palas ganed Duw?
Ble mae Baban pur y nef?
Yn y preseb wele ef!

Nage, nid mewn palas gwych
Ond ym mhreseb gwael yr ych;
Yn is na'r tlotaf o'r rhai tlawd
Y disgynnodd Duw mewn cnawd.

Codwyd ninnau hyd y nef,
Yn ei ostyngeddwydd ef;
Sych dy ddagrau, enaid trist,
Do, fe anwyd Iesu Grist.

JOHN CEIRIOG HUGHES ('Ceiriog' 1832 – 87)

DEFFROWCH YN LLON

DEFFROWCH yn llon, breswylwyr llwch,
A chodwch, O chwychwi,
Datseiniwch oll, 'Hosanna' â chân,
Mae'n lân wir Jwbili;
Dihunwch chwi, rai tlawd a chaeth,
Hi ddaeth, hi ddaeth y dydd,
Mae'r haul yn glir a'r hwyl i'n gwlad
A'r ffordd yn rhad a rhydd.
O wele'r dydd, Newyddion Da,
Pob tlawd a chla' clywch lef,
Chwi sydd â d'lêd i'ch suddo hyd lawr,
O wynfyd wawr, y Meichiau mawr
A ddaeth yn awr o'r nef.
Tangnefedd sydd, mae'n rhyfedd sôn,
Lles dynion, 'wyllys da
I ddynion drwg o'i ddawn ddi-drai;
Druenus rai, dan bwyse'u bai,
Yn rhyfedd a'i mawrha.

Mil a Mwy o Emynau

A hwn yw'r Gair a wisgodd gnawd,
Fe wnawd yn Frawd i ni,
Ac yn ei Gnawd ag enwog nerth
Condemniai'r anferth ri.
Yn gymaint oll mai yng nghnawd dyn
Daeth colyn gwenwyn gynt,
Yng nghnawd y dyn y cydiodd dawn,
Bu'n rhyfedd iawn yr hynt:
Er dyfned oedd trueni dyn,
Mab Duw ei hun wnâi heddi;
Aeth dan bob rhan, digofaint pryd,
Olrheiniai ar hyd ei Eglwys ddrud
Trwy'r byd, tu draw i'r bedd:
O'r cariad oedd yng nghalon Duw
Rhyfeddod yw mewn dawn!
Gwaith Cariad rhad, concweriad rhwydd
Yn chwalu chwydd hen sarffaidd swydd
Pob llid euogrwydd llawn

THOMAS EDWARDS ('Twm o'r Nant' 1739 – 1810)

GWRANDAWN, DILYNWN AC ADDOLWN

DEFFROWN a gorfoleddwn,
Fe aned Iesu Grist;
Newyddion o lawenydd mawr
A gaed yn awr i'r trist;
Gwrandawn ar gân angylion llon,
Cyhoeddi maent i'r ddaear gron:
Ceidwad byd ddaeth o'r nef,
Ganwyd y Crist : *in excelsis gloria.*

Fe welodd tri o'r dwyrain
Oleuni newydd Nêr,
A darllen neges gyfrin Duw
Yng ngwiw batrymau'r sêr,
A dilyn rhawd ei olau ef
Nes dod at breseb Bethlem dref:
Ceidwad byd yno gaed,
Ganwyd y Crist : *in excelsis gloria.*

Dan gronglwyd lom y beudy
Plygasant ger y crud;
Cysegru wnaent o galon lawn
Eu dawn a'u rhoddion drud;
Rhown ninnau'n hunain iddo nawr,
Ein denu mae â'i gariad mawr:
Ceidwad byd yw efe,
Ganwyd y Crist : *in excelsis gloria.*

JEAN DE BRÉBEUF (c.1641)
cyf. ANHYSBYS

DEFFROWN! DEFFROWN!

DEFFROWN! Deffrown! A rhown fawrhad
Cyn toriad dydd, cyn toriad dydd:
I ddwyfol Aer y nefol wlad
Croesawiad sydd, croesawiad sydd.
Fe ganodd sêr er bore'r byd,
Sef holl angylion Duw ynghyd;
Fe ganodd y Proffwydi i gyd,
Heb fod yn gau, heb fod yn gau;
A pham na chanwn ninnau'n un
Am gael Jehofa mawr ei hun,
Mewn dull fel dyn ac ar ei lun,
I'n gwir wellhau, i'n gwir wellhau?

O ryfedd rad y cariad cu
A ddarfu ddwyn, a ddarfu ddwyn,
I'n plith y Meddyg, Iesu mad,
Samariad mwyn, Samariad mwyn.
Gadawodd orsedd nefol wlad,
Ei 'wyllys oedd, er ein llesâd;
I lawr y daeth o lys ei Dad
I'n hisel dir, i'n hisel dir.
O'n natur lesg cymerodd ran,
Bu iddo 'mostwng ymhob man;
Mewn beudy'n wael, mewn byd yn wan,
Bu'n bod yn wir, bu'n bod yn wir.

Mil a Mwy o Emynau

Bechadur, heddiw gwêl dy le,
Gad gael dy lais, gad gael dy lais;
Am gael i'th fynwes Frenin ne'
Pob cyfle cais, pob cyfle cais.
Paham yn drist y safwn draw?
Efe yw'n braich rhag ofn a braw;
Mae'n derbyn ato bawb a ddaw
Â'i law ar led, â'i law ar led.
Dim cariad mwy na hwn nid oes,
Ac ni bu 'rioed mewn neb rhyw oes;
Ei fywyd roes ar bren y groes
Dros bawb a gred, dros bawb a gred.

Mae eto'n dod; yn barod bôm
Tra byddom byw, tra byddom byw,
I ymgyfarfod mewn gwir ffydd
Bob dydd â'n Duw, bob dydd â'n Duw.
Rhown gyfrif o'r orchwyliaeth hon,
Ni thâl esgusion ger ei fron;
Mae'n adwaen gwraidd y galon gron
Mewn golwg rhydd, mewn golwg rhydd.
O am ein caffael ynddo fe
Fel gogoneddus blant y ne';
Bydd llon ein lle ar ei law dde
Pan ddêl ei ddydd, pan ddêl ei ddydd.

ROBERT DAVIES ('Bardd Nantglyn' 1769 – 1835)

EMYN NADOLIG

DEUWCH blant ynghyd i ganu
Gerllaw crud y baban Iesu,
Dyma le i ni gael nefoedd
Yn ei greadigaeth ryfedd.

Deuwch oll mewn cân a gweddi
Pawb yn llawen, i'w addoli,
Ef yw ein Gwardwr tirion,
Ef a'n prynodd dan yr hoelion.

DEUWCH FFYDDLONIAID

Adeste, fideles

DEUWCH, ffyddloniaid,
Bawb dan orfoleddu,
Deuwch, O deuwch i Fethlehem;
Wele, fe aned Brenin yr angylion!

*O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn,
O deuwch ac addolwn Grist ein Duw!*

Dduwdod o'r Duwdod!
Olau pob goleuni!
Daethost yr awron o groth dy fam,
Wir Dduw o wir Dduw, Arglwydd cenedledig!

Seren sy'n arwain
Doethion i'w addoli:
Rhônt eu trysorau i'r Brenin mawr.
O rhoddwn ninnau iddo ein calonnau!

Cenwch, gantorion,
Llawen gôr angylion,
Cenwch ei fawl, holl neuaddau nef!
Molwch, clodforwch Dduw yn y goruchaf!

Iesu, i tithau,
Aned inni heddiw,
Boed y gogoniant drwy'r oesoedd maith!
Gair y Tragwyddol nawr yn gnawd a wnaethpwyd –

Priodolir i JOHN F. WADE (1711 – 86)
cyf. IFOR L. EVANS (1897 – 1952)

GOBAITH Y GENI

DEWCH i ganu! Dewch i foli!
Wele, ganwyd Mab y nef,
Daeth i'r ddaear hon i achub
Pawb a gredo ynddo ef,
Nid oedd iddo 'stafell foethus,
Preseb oedd ei grud, ar lawr,
Daeth â chariad yn ei fynwes,
Ef yw trysor mwya'r llawr.

Canwn ar ein taith i Fethlem,
Rhoddwn iddo'n parch a'n bri,
Cawn ein tywys gyda'r seren
Sy'n goleuo'r ffordd i ni,
Yn ei gariad gwelwn ninnau
Gyfle newydd nawr ynghyd,
Drwy gysegru iddo'n bywyd
Mynnwn geisio hedd i'r byd.

Heddiw, canwn a chlodforwn
Ysbryd Crist sydd eto'n fyw,
Y mae'n cymell a chysuro
Drwy roi llaw i ddynol-ryw,
Dewch i ganu! Dewch i foli!
Daeth Nadolig inni'n rhad,
Gwelwn obaith yn y Geni:
Molwn Iesu, Fab y Tad.

MORFYDD JAMES, Llangynin

EI SEREN EF

DOETHION ddaeth o'r dwyrain draw
Ag anrhegion ym mhob llaw,
Teithio, teithio, o dref i dref,
Ar ôl gweld ei seren ef.

*Gad i ninnau, Frenin nen,
Ddilyn golau'r seren wen,
Nes dy gael – a gwyn ein byd!
Ti gei'n rhoddion ninnau i gyd.*

Croesi wnaethant lawer tir,
Yng ngoleuni'r seren glir,
Nes disgleiriai megis gem
Goruwch baban Bethlehem.

Yno, mewn llawenydd mawr,
Gan ymgrymu hyd y llawr,
Offrymasant iddo, ar fyr,
Roddion: aur, a thus, a myrr.

Mae plant bach mewn gwledydd pell
Eto'n disgwyl golau gwell;
Arglwydd Iesu, gad i ni
Anfon yno'th seren di.

ALBERT EVANS-JONES ('Cynan' 1895 – 1970)

DOS DYWED AR Y MYNYDD

*D*OS, dywed ar y mynydd,
Ledled y bryn ac ymhob man,
Dos, dywed ar y mynydd
Am eni Iesu Grist.

Tra gwyliai y bugeiliaid
Y praidd drwy'r noson hir
Yn syth o'r nef disgleiriodd
Goleuni dwyfol clir.

A hwythau, wedi'i weled,
Aent ar eu gliniau 'nghyd,
Ac yna mynd ar unwaith
I geisio Prynwr byd.

Pan geisiais innau Iesu,
Fe'i ceisiais nos a dydd;
Erfyniais am ei gymorth,
Arweiniodd fi yn rhydd.

Mil a Mwy o Emynau

Fe'm gwnaeth yn wylwr cyson
Ar furiau dinas Duw,
A'm rhawd, fi Gristion eiddil,
Mor ddedwydd, dedwydd yw.

Penillion 1 a 2 JOHN WESLEY WORK (1873 – 1925)
Penillion 3 a 4 a'r gytgan ANHYSBYS
efel. DAFYDD OWEN (1919 – 2002)

DRAW 'MHELL YN Y PRESEB

DRAW 'mhell yn y preseb
Heb wely bach clyd,
Gorweddai y Baban,
Gwardedr y byd.
Y sêr yn y nefoedd
A wenai ar Mair,
A'r Iesu bach annwyl
Yn cysgu'n y gwair.

Mae'r gwartheg yn breffu,
A'r Baban bach mwyn
Sy'n deffro yn ddistaw
Heb ddeigryn, heb gŵyn.
Fe'th garaf di, Iesu,
O, disgyn o'r nen,
A saf yn fy ymyl,
A'th law ar fy mhen.

ANHYSBYS
cyf. T. H. PARRY-WILLIAMS (1887 – 1975)

DRAW YN NHAWELWCH BETHLEM DREF

DRAW yn nhawelwch Bethlem dref
Daeth Baban bach yn Geidwad byd;
Doethion a ddaeth i'w weled ef,
A chanodd angylion uwch ei grud:
Draw yn nhawelwch Bethlem dref
Daeth Baban bach yn Geidwad byd.

Draw yn nhawelwch Bethlem dref
Nid oedd un lle i Geidwad byd;
Llety'r anifail gafodd ef
Am nad oedd i'r Baban lety clyd:
Draw yn nhawelwch Bethlem dref
Nid oedd un lle i Geidwad byd.

Draw yn nhawelwch Bethlem dref
Fe anwyd Crist yn Geidwad byd;
Canwn garolau iddo ef,
A molwn ei gariad mawr o hyd:
Draw yn nhawelwch Bethlem dref
Fe anwyd Crist yn Geidwad byd.

JOHN HUGHES, Rhosllannerchrugog (1896 – 1968)

Y DOETHION

DRAW yn y dwyrain ar gyfnas y nos
Disgleiriodd y seren uwch bryn a rhos;
Gwelwyd ei golau yn pefrio'n glaer
I arwain y doethion at Fab y saer.

Rhaid ydoedd mentro o'r dwyrain a'i hud
I chwilio am Iesu, Gwardwr y byd;
Dilyn y seren heb wro un cam
Nes dyfod at lety y Mab a'i fam.

Daeth Melchior ag aur at Iesu yn rhodd,
A phlygu yn wylaidd a wnaeth o'i fodd,
Cydnabod fod Brenin mewn preseb tlawd,
A'r Gair tragwyddol yn ei wisg o gnawd.

Daeth Caspar â thus yn anrheg i Grist,
I ddangos gwrogaeth mewn dyddiau trist;
A myrr ydoedd offrwm Balthasar o bell,
Wrth grymu i Frenin y deyrnas well.

Dychwelodd y doethion o Fethlehem
Â golau o'r nef yn glir yn eu trem;
Yr her yw eu dilyn wrth droi mewn ffydd
I fod yn genhadon dros Grist bob dydd.

D. J. THOMAS (1916 – 99)

DRWY RINWEDD DADLEUAETH

DRWY rinwedd dadleuaeth, eiriolaeth yr Iawn,
Moliannu Duw'r nefoedd yn gyhoedd a gawn,
Am eni'r Iachawdwr, y Prynwr mewn pryd,
Yn Geidwad i ddynion, abwydion y byd.
O deuwn i'w dŷ a lleisiwn yn llu
Mewn cariad gwir frawdol i'w ganmol yn gu.
Diolchwn, da yw, am fod yma'n fyw
I gofio babandod a dyndod Mab Duw.

Cyn gwawriad naturiol wybrennol ryw bryd
Llewyrchai gwawr nefol arbedol i'r byd,
Sef gwawr Haul Cyfiawnder yn nyfnder y nos
I arwain rhai budron i'r Ffynnon o'r ffos.
Yr Iesu, o'i ras, ogwyddai i le gwas
Pan ddaeth yn dlawd arno i'n ceisio, rai cas.
Ni feddai efe un llys yn y lle,
Na gwely na cherbyd, Anwylyd y ne'.

Clodforwn, clodforwn, Duw folwn hyd fedd,
Creawdwr, Cynhaliwr, a Rhoddwr gwir hedd.
Ei drigfa 'mysg dynion, rai noethion, a wnaeth
A'r dynion i undod y Duwdod a ddaeth;
Fe anwyd mewn pryd y Baban i'r byd,
Gogoniant y dwthwn a gofiwn i gyd.
Er gogan a gwawd mae'n Frenin, mae'n Frawd;
Hwn i bechaduriaid yn Geidwad a gawd.

Angylion dihalog (wrth ddisgwyl eu tro),
Fu'n seinio moliannau hyd fryniau y fro
Am eni'r Iachawdwr yn Ddyddiwr i ddyn,
Yn noddfa mewn trallod, yn Gyfaill a lŷn;
A ninnau yn awr a folwn yn fawr;
Cydseinied y nefoedd a lluoedd y llawr:
Tra bôm yn y byd, O rhoddwn ein bryd
Ar ddilyn yr Iesu, a'i garu i gyd.

DRWY'R DWFN DAWELWCH

DRWY'R dwfn dawelwch ar y sanctaidd nos
Daeth cân angylion, gwelwyd seren dlos;
'Dewch fugeiliaid, clywch ein neges,
Wele, heno Crist a aned
Draw ym Methlehem!'

'Cewch ef yn gorwedd ar ei wely gwair,
Ewch i groesawu'r Arglwydd, faban Mair.
Gloria in excelsis Deo,
Ar y ddaear heddi ddynion,
Wele, ganed Crist!'

Aeth y bugeiliaid draw i Fethlem dref,
Lle gwelsant Iesu, ddaeth at ddyn o'r nef;
'Croeso iti, Geidwad sanctaidd,
Bu proffwydo dydd dy ddyfod,
Wele, daeth yr awr!'

Cân y bugeiliaid folodd Grist yr Iôr
Gyda'r angylion, orfoleddus gôr:
'Gloria in excelsis Deo,
Ar y ddaear heddi ddynion,
Wele, ganed Crist!'

cyf. AMY PARRY-WILLIAMS (1910 – 88)

AWN HYD FETHLEHEM

DYGIR gyda'r awel bêr
Nodau cân o blith y sêr;
Deffro, f'enaid, llawenha,
Gwrandio y newyddion da,
Bloeddiwch drwy Jerwsalem,
Crist a ddaeth i Fethlehem,
Taenwch y newyddion llon
Hyd derfynau daear gron.

Mil a Mwy o Emynau

Gorfoledda, Isrâel,
Wele'th Dduw, Emanwêl!
Chwiliaist ti orseddau'r byd,
Baban yw efe mewn crud;
Dwed dy femrwn na fydd llef
Yn yr heol pan ddaw ef,
A phan ddêl i'r ddinas gâr,
Daw ar ebol asen wâr.

Paid â'i wrthod, Brenin yw,
Tecaf oll o ddynol-ryw!
Ceidwad, dy Wareddydd cu,
Gwêl dy ofid, lleddfa'th gri;
Dinas y proffwydi hy,
Dinas y brenhinoedd cry',
Dyma y Meseia, clyw,
Dyma'th ddyn, a dyma'th Dduw.

Dacw'r bobl bell yn dod,
Darllenasant hwy ei glod,
Ar ddalennau wybren dêr,
Yng nghyfrinion dwfn y sêr;
Na foed neb yn brudd ei drem,
Awn, O awn i Fethlehem,
Uned daear gyda'r nef
I roi croeso iddo ef.

Cymru'r Plant, Rhagfyr 1910

JOHN M. HOWELL (1855 – 1927)

CAROL GOFIO

ETO i'w taith daeth y doethion!
Ust! Clywch angylaidd lef!
Llonder sy'n llenwi pob calon,
Seren sy'n llenwi'r nef!
Ti, Dduw, a fynnodd nesu
Atom o dan ein pwn,
Derbyn ein diolch am Iesu
Eto'r Nadolig hwn.

Hen yw llawenydd y garol,
Newydd, er hyn, o hyd,
Am ddod i Fethlehem siriol
Iesu yn Geidwad byd.
Pan fyddwn ninnau'n deulu,
Ddydd Geni, 'gylch y bwrdd,
Cofia, ein Tad, y rhai hynny,
'Leni, sy 'mhell i ffwrdd.

DAFYDD OWEN (1919 – 2002)

BETHLEHEM

EWCH yn llawen, ewch â'ch doniau
Unwaith eto i Fethlem dref,
Gwelwch Faban mewn cadachau,
Iesu ydyw, D'wysog nef.

Croeso yno, blant y gwledydd,
Am Un bychan yn y gwair;
Er ei wrthod gan aelwydydd
Croeso gafodd ar lin Mair.

Rhowch eich dagrau, famau tirion,
Dros y Ceidwad gwan ei wedd;
O mor oer y byd a'i roddion –
Coron ddrain, a chroes a bedd.

Gyfaill, a ddoi dithau heno
I gyfrannu o olud Duw?
Deil yr hen addewid eto
Fod y Baban yma'n fyw.

JOHN ARWYN PHILLIPS (1935 – 93)

CAROL O WLAD PWYL

FABAN Dwyfol,
Faban siriol,
Dinod breseb iddo'n grud;
Ych yn brefu
Wrth ei wely,
Yntau'n huno'n wyn ei fyd;
Cain acenion
Chwim angylion
O'r uchelion
Ar ei glyw,
'Iesu Grist yw Ceidwad byd!'

I'r bugeiliaid
Wyliai'r defaid
Ganol nos, a phawb yn fud:
Daeth goleuni,
Clywsant stori
Droes eu hofnau'n gân i gyd.
O'r llawenu
A'r moliannu,
Pêr-groesawu
Llawen fryd;
'Iesu Grist yw Ceidwad byd!'

O'r Bwyleg

cyf. E. M. G. REED (1885 – 1933)

cyf. W. D. WILLIAMS (1900 – 85)

NADOLIG

Ich steh' an deiner Krippen hier

FE safaf yma wrth dy grud –
Fy mywyd wyt, O Iesu –
A dof â phopeth yn y byd
A roddaist dithau imi:
Fy meddwl, 'nghalon, f'enaid i –
Fe rof y cwbl nawr i ti:
O dyro groeso iddynt.

Yng nghanol trymgwsg angau du
Fel haul y buost beunydd,
Yn dod â golau glân i mi,
Goleuni gwir lawenydd.
O Haul a ddyry olau ffydd
I mi, bechadur, nos a dydd,
Mor hardd yw dy belydrau!

Edrychaf arnat ti yn llon,
Dy weld ni allaf ddigon:
Am ran mewn gwyrth mor fawr â hon
Diolchaf byth o'm calon.
O nad âi 'mryd uwch bryniau'r byd
A thros y moroedd yn eu hyd
Er mwyn im afael ynot!

PAUL GERHARDT (1607 – 76)
cyf. IFOR L. EVANS (1897 – 1952)

BETHLEHEM

FE wawriodd dydd uwch Bethlem dref
Pan oedd angylion ag un llef
Yn seinio moliant pêr ynghyd
Am eni Ceidwad mawr y byd.

Ni wyddai gwraig wrth gynnau tân
Na fu erioed bereiddiach cân;
Ni wyddai gŵr wrth droi i'w waith,
Ni wyddai'r hen na'r plant ychwaith.

Ni wyddai'r llon, ni wyddai'r prudd
Mai hwn oedd y rhyfeddol ddydd
Pan roes bugeiliaid ar eu hynt
Anfarwol gân ar flaen y gwynt.

Ni wyddai mawrion balch eu trem,
Ni wyddai'r tlawd fod "Bethlehem"
Yn enw nad âi'n angof mwy
Ar fôr na thir – ni wyddent hwy.

T. ROWLAND HUGHES (1903 – 49)

Mil a Mwy o Emynau

GANED BACHGEN INNI OLL

Puer nobis nascitur

GANED bachgen inni oll,
Brenin mawr y bydoedd;
Daeth i geisio'r crwydraid coll,
Gwardwr i'r cenhedloedd.

Yn y preseb cafwyd ef,
Gyda'r ychen mudion;
Gwelsant hwy etifedd nef,
Y tecaf o'r holl feibion.

Herod oedd yn llawn o fraw,
Wedi'r newydd rhyfedd;
Lladdodd ef ym Methlem draw
Y plant yn ei gynddaredd.

Boed i Fab y Forwyn Fair,
Ceidwad cryf yr oesoedd,
Arwain pawb trwy nerth ei air
I wynfyd pur y nefoedd.

Alffa ac Omega yw,
Seiniwn foliant iddo;
A dywedod pob dyn byw:
Benedicamus Domino.

15fed ganrif

cyf. WILLIAM HENRY HARRIS (1884 – 1956)

GANED CRIST YM METHLEHEM

GANED Crist ym Methlehem,
Yn y beudy isel;
Ych ac asyn wyliai'n fud
Uwch ei grud yn dawl;
Hwn sy Dduw er lleied yw,
Brenin, Arglwydd dynol-ryw.
Doed y byd o'r bron
I'w foliannu'n llon,
Codwn lef
Iddo ef,
Un ac oll i'w foli,
Pawb i'w gydaddoli.

Dug brenhinoedd gwledydd pell
Heirdd anrhegion iddo,
Seren ac angylion glân
A'u harweiniodd ato.
Rhoddion a gyflwynant hwy,
Aur a thus a myrr a mwy,
Doed y byd o'r bron
I'w foliannu'n llon,
Codwn lef
Iddo ef,
Un ac oll i'w foli,
Pawb i'w gydaddoli.

Sanctaidd Faban Bethlehem,
Dod dy fendith arnom;
Gwna ni'n deulu mawr cytûn,
Rho dy heddwch ynom.
Yn dy gariad boed ein nyth,
Gweld dy wedd fo'n cysur byth:
Doed y byd o'r bron
I'w foliannu'n llon,
Codwn lef
Iddo ef,
Un ac oll i'w foli,
Pawb i'w gydaddoli.

Aralleiriad o'r Ffrangeg gan THOMAS ARMSTRONG (1898 – 1994)
efel. W. D. WILLIAMS (1900 – 85)

CAROL PLENTYN

GANRIFOEDD maith yn ôl fe ddaethost ti
Yn blentyn bychan fel myfi,
Ac uno wnaeth y doeth a'r engyl glân
I gynnig iti, oll yn ddiwahân –
Eu mawl a'u cân.

Mil a Mwy o Emynau

A thyfu wnest yn ddyn a chrwydro'r wlad
Gan godi'r truan ar ei dra'd,
A rhannu'n rhad o fodd dy galon lawn
A gwella'r afiach trwy dy ddwyfol ddawn –
Moli a wnawn.

O cymer fi i'th gôl a rho dy law
I'm tywys inne rhag pob braw
A boed i rym a gwres dy Ysbryd di
Oleuo imi'r ffordd o'i cherdded hi.
O clyw fy nghri.

PETER M. THOMAS

GOGONIANT YR ARGLWYDD DDISGLEIRIODD

GOSONIANT yr Arglwydd ddisgleiriodd,
GO'r nefoedd y llifodd i'r llawr,
A seren y dwyrain a wenodd
A'r ddaear ryfeddodd yn fawr;
Pan welid y tecaf flodeuyn
Esgorodd y forwyn yn fyw:
Mewn preseb gorweddai y plentyn,
Teg febyn yn ddyn ac yn Dduw.

O'i amgylch y gwyliai angylion,
Mil myrdd o anwylion y nef,
Ar euraid gymylau digymar
Y canent yn llafar eu llef:
'Gogoniant i'r Arglwydd Goruchaf,
Y blaenaf a'r olaf Air yw,
I'r Mab a'r Glân Ysbryd rhown foliant,
Gogoniant, addoliant i Dduw.'

'Gogoniant!' medd hoffus seraffiaid
Mewn gwisgoedd gwiw-gannaid i gyd;
'Gogoniant!' medd côr y cerwbiaid,
'O wele Ben-ceidwad y byd.'
'Gogoniant!' medd gwylaidd fugeiliaid,
'Bendigaid yw Duw yn y cnawd!'
Mae'r forwyn yn dal ar ei deulin
Ein Harglwydd, ein Brenin a'n Brawd.

Gorlenwid y nef â gorfoledd,
Tangnefedd i'r ddaear a ddaeth,
A chariad ar loywon adenydd
Pob calon o newydd a wnaeth;
A Meichiau pechadur dyledog
Sydd faban gwynwridog yn awr,
Ond cyfyd yn Haul i'r ddaearen,
Siriolach na seren y wawr.

O! Wele Iachawdwr a Cheidwad,
Anfeidrol ei gariad, gwir yw,
Arweinydd i fywyd tragwyddol
A nefol a dwyfol Oen Duw:
Gogoniant i'r Arglwydd a roddwn,
A chanwn tra byddwn ni byw
Â'n lleisiau a'r delyn a'r dectant
Bêr foliant, addoliant i Dduw.

ANHYSBYS

GWROGAETH A DALWN
Carol Plygain

GWROGAETH a dalwn i Grëwr ein byd,
Ac Awdur ei frith greaduriaid i gyd;
Uchafbwynt a champwaith ei gread yw Dyn
A luniwyd gan Dduw ar ei ddelw a'i lun;
Darganfu yn Eden baradwys wir hardd,
Ac yna ei cholli yng nghodwm yr ardd,
Cans torrwyd y cwlwm rhwng dynion a Duw,
Pan lygrwyd dynolryw gan bechod a'i friw.

Cyfamod o'r newydd, medd proffwyd, a wneir,
O bren crin y boncyff blaguryn a geir,
A changen addawol a gyfyd o'r gwraidd:
Cyff Jesse rydd eto Ben-bugail i'r praidd,
A hen ddinas Dafydd, er lleied ei maint,
Yn ddinas frenhinol drachefn – y fath fraint!
Cans yno y genir Gwardedwr y byd,
Crist Iesu, cyflawnder yr oesau i gyd.

Mil a Mwy o Emynau

Mor amrwd ei breseb ac isel ei stad,
A Herod yn unben ar fywyd y wlad;
Er hynny, fe gafodd ar fynwes ei fam
Lochesu rhag dichell a'i gadw rhag cam;
I'r stabal daeth atynt o'r meysydd gerllaw
Y gwylaidd fugeiliaid mewn arswyd a braw,
A hwythau'r seryddion, gan ddwyn offrwm drud
Yn deyrnged haeddiannol o amgylch ei grud.

Prif fyrdwn ei neges pan dyfodd yn ddyn
Oedd Duw yn teyrnasu ar fywyd pob un,
Boed bonedd neu werin, boed satyr neu sant,
Yr un oedd ei bwyslais, gan daro'r un tant;
Estynnai drugaredd i'r truan a'r gwan,
A cherydd yn llym i'r trahaus ymhob man,
Heb flewyn ar dafod fe heriodd bob drwg,
Heb geisio gwên dynion nac ofni eu gwg.

Nid dedfryd gan Peilat na Chaiaffas chwaith
A bennodd ei dynged ar ddiwedd y daith,
Ond dwyfol ragluniaeth a drefnodd mai'r groes
A ddwg fuddugoliaeth ar bechod pob oes;
Mor flin fu'i ddioddefaint ar drostan o bren,
Mor bigog y ddraenen yn bleth ar ei ben;
Ond coron y cyfan, a sylfaen ein hedd,
Yw gwyrth atgyfodiad Crist Iesu o'r bedd.

MAURICE LOADER

EMYN NADOLIG

GWYN fyd na welem eto
Y seren honno gynt
Fu'n olau nos y geni
I'n harwain ar ein hynt.

Gwyn fyd na theimlem eto
Gynhesrwydd preseb tlawd;
Y byd yn aelwyd eilwaith
A'r gelyn gynt yn frawd.

Gwyn fyd na chlywem eto
Gôr yr angylion glân
Ar deithiau llwm yr ysbryd
Yn rhoi i'r enaid gân.

Gwyn fyd na chaem ryfeddod
Nadolig plentyn bach,
A dyfroedd ffynnon Bethlem
Yn troi pob claf yn iach.

JOHN RODERICK REES (1920 – 2009)

HEDD I'R HOLL FYD

HEDD i'r holl fyd, fe ddaeth ein Duw,
Rhown groeso iddo ef,
Efe yn wir yw'n Ceidwad ni.
O caned nef a llawr,
O caned nef a llawr,
O caned, O caned nef a llawr.

Hedd i'r holl fyd, fe wnaeth ein Duw
Ffordd glir yn syth i'r nef.
Efe yn awr yw'n Bugail ni:
Dilynwn ef bob cam,
Dilynwn ef bob cam,
Dilynwn, dilynwn ef bob cam.

Hedd i'r holl fyd! Diolchwn, Dduw
Am ein bendithion lu,
A gaed drwy boen ac aberth Crist:
Ar groesbren Calfari,
Ar groesbren Calfari,
Ar groesbren, ar groesbren Calfari.

Y GOLYGYDD

HENFFYCH ITI, FABAN SANCTAIDD

HENFFYCH iti, faban sanctaidd,
Plygu'n wylaidd iti wnawn,
Gan gydnabod yn ddifrifol
 Werth dy ddwyfol ras a'th ddawn;
O ymuned daearolion
 I dy ffyddlon barchu byth,
Gyda lluoedd nef y nefoedd
 Yn dy lysoedd – Iôn di-lyth.

Henffych iti, faban serchog,
 Da Eneiniog, ein Duw ni,
Rhaid in ganu iti'n uchel,
 Ac, ein Duw, dy arddel di:
Ein Gwardwr, a'n Hiachawdwr
 Wyt, a'n Dyddiwr gyda'th Dad,
Ac am hynny taenwn beunydd
 Iti glodydd drwy ein gwlad.

Wele seren deg yn arwain
 Doethion dwyrain at dy draed,
Aur a thus a myrr aroglus,
 Rhoddion costus iti gaed;
Tywysogion a ymgrymant
 Ac addolant di, O Dduw!
At y Silo pobloedd ddeuant,
 Gwelant dy ogoniant gwiw.

Bendigedig yn dragywydd!
 Ti yw'n Llywydd a'n Duw llad;
Iti'n ufudd yr ymgrymwn
 Ac y rhoddwn bob mawrhad;
Ti a wnaethost ryfeddodau
 Eang barthau'r nef uwchben,
Ac ni ganwn it ogoniant,
 Clod a moliant byth – Amen.

CAROL PLYGAIN : RHOWN FOLIANT

I GYNNIG dedwyddwch i fyd mewn tywyllwch,
daeth Baban â'i heddwch o'r nef,
yn Fab diargyhoedd, yn Frenin brenhinoedd
a Cheidwad i'r bobloedd oedd ef;
ni chafodd ond beudy anifail yn llety,
a'i wely oedd preseb o wair,
ond yn ei breswylfod, caed bendith y Duwdod
ar bennod yr Ysbryd a Mair.

Er rhif ei fendithion tra'n byw ymhlith dynion,
gelynyon a'i hoeliodd ar bren,
ond ni thâl i'w hepgor, cans ef yw y porthor
sy'n agor drws gras led y pen;
mae'r Bachgen a aned yn barod â'i nodedd
pan geisir ymwarded gan ddyn;
fe'n golchir o'n pechod, cawn fyw yn ei wyddfod
mewn cymod â'r Crëwr ei hun.

Y gân fu uwch Bethlem sy'n seinio yn Salem,
mae'r anthem o fawl yn parhau;
mae gwreng yn penlinio a bonedd yn uno,
a'r gytgan yn Seilo'n cryfhau;
rhown foliant i Iesu, y Brawd sy'n ein caru;
yr Un a'n hadnabu ni yw,
ac ef sy'n cyfeirio ein henaid rhag gwyro,
trwy bontio rhwng dynion a Duw.

ALICE EVANS, Henllan Amgoed

CAROL PLYGAIN

I WANU'R nos ar fryn a dôl
doed dwyfol dywyniadau
Ac engyl glân i foli'r Iôr
fel cynt ar faes y preiddiau;
Yn hyglyw fo'r newyddion da
am faban newydd eni.
Yn Ffrind a Brawd dynoliaeth dlawd
i'w gwarded o'i thrueni.

Mil a Mwy o Emynau

I olau'r tŷ, mewn gwlad a thref
yng hyd doed pererinion
Yn ŵyl eu gwedd i brofi hedd
wrth draed yr Iesu gwiwlon;
Ei weled ef, digonedd fydd,
cans deffry obaith bywiol
Mewn enaid crin am gael o'i rin
i'w fywiocáu'n dragwyddol.

Dros fôr a thir dyrchafer cân
ar led, O aed yr hanes
Am Aer y nef ym Methlem dref
o'i fodd heb rwysg na rhodres,
Dros byth, disgleiria'i seren ef,
diddarfod mawl angylion,
A'i aberth drud dros euog fyd
fydd anthem gwardedigion.

T. ELFYN JONES (1914 – 2008)

EMYN NADOLIG

LLAWEN Nadolig ar ei hynt,
Ieuainc a hen yn cyd-foeli;
Mewn cân a ddysgodd yr engyl gynt,
Mae'r plant i gyd yn addoli:
Ar bren y bywyd canhwylau chweg
A'u golau yn ymlid prudd-der;
Y plentyn a fedo lawenydd teg,
Ni chyll ef byth mo'i londer.

Llawenydd heddiw a ddaeth i'r byd
Gyda'r Brenin-Faban o'r nefoedd;
Aderyn to, llawenha ynghyd
Â'r glomen pan daenir y gwleddoedd!
Dawnsia, Faban, ar lin dy fam,
Cans dyma foreddydd gwiwlwys;
Ganed it heddiw Waredwr rhag cam
A gwawrio yn awr mae paradwys!

Yn blentyn y ganed Iesu ei hun,
Mewn preseb gorweddai'n Faban;
Mor agos yr ardd ar y bore cun,
Lle mae engyl Duw yn hofran;
Yn awr gyda ni trig Brenin Nef,
Llonder Nadolig sy'n hanu;
Pob bron ddi-frac a lŷn wrtho ef,
Ac â'r angylion yn canu.

O'R DDANEG

cyf. R. C. GILLESPIE a D. TECWYN EVANS (1876 – 1957)

NOS Y GENI

MAE pob seren heno'n pefrio
Yn fwy claer yng nglas y nef,
A phob oen ar hyd y meysydd
Yn fwy byw a llon ei fref;
Mae tynerwch yn yr awel,
Cyfrin wawl ar lenni'r nos,
Mae rhyw arfaeth fawr ar esgor
Heno yn Effrata dlos.

Ciliodd trymder y bugeiliaid,
Effro maent yn gwyllo'u praidd,
Cyd-chwedleuant yn ddibryder,
Pell yw'r llew, a mud yw'r blaidd;
Hawdd yw sôn am obaith Israel
A gwynfydau'r dyddiau gwell,
Diau nad yw tymor euraid
Y Goruchaf ddim ymhell.

Gwasga'r nef mor glòs i'r ddaear,
Dan y pwysau rhwyga'r llen,
Dacw angel drwy yr adwy,
Angel cryf ar adain wen;
Wele gorau yn ei ganlyn,
Cylch ar gylch yn canu'n un:
Halelwia! Halelwia!
Ganwyd heddiw Geidwad dyn.

W. NANTLAIS WILLIAMS ('Nantlais' 1874 – 1959)

BORE MAIR

MAE’N gwawrio’n araf, a’r awel lem
Yn treiddio i bobman ym Methlehem,
Ond yn y stabl y mae’n parhau
Naws hyfryd gynnes y llawenhau.

*Cwsg, ein hanwylyd, ein trysor ni,
Si lwli lwli, si lwli li.*

Rhyw ddydd, adroddaf i’ m bychan llon
Holl hanes gwyrthiol y noson hon:
Y doethion deithiodd, cân engyl ne’
A’r llu bugeiliaid yn llenwi’r lle.

Pan giliodd pawb, daeth cwsg yn nes,
Tra gwyliai Joseff, breuddwydio wnes,
’Roedd drain tros wely fy mebyn tlws
Ond cân gorfoledd oedd ger y drws.

Bu’n hyfryd deffro a gweld dy drem
O wair y preseb ym Methlehem.
Ond cwsg, er dyfod y wawr ar daen,
Mae taith helbulus drachefn o’th flaen.

DAFYDD OWEN (1919 – 2002)

‘MAE’N WIR’

‘**M**AE’N wir,’ medd bugeiliaid
Wrth fynd ato ef,
‘Fe glywsom y newydd
Gan angel o’r nef;
Rhaid teithio i Fethlem
Lle ganed Mab Duw,
Mae’n rhaid ei addoli,
Ein Ceidwad ni yw.’

*‘Mae’n wir,’ medd angylion,
A’u cân uwch y tir,
‘Mae’n wir,’ medd yr Arglwydd,
‘O credwch, mae’n wir.’*

‘Mae’n wir,’ medd y doethion
Wrth syllu i’r nen,
‘Mae’r seren ryfeddol
Yn ddisglair uwchben;
Rhaid inni ei geisio
I’w foli o hyd,
Fe’i ganed yn frenin
Brenhinoedd y byd.’

‘Mae’n wir,’ meddai Joseff,
‘Mae’n wir,’ meddai Mair,
‘Rhoed inni’r addewid
A chredwn y Gair;
Mae bellach yn gorwedd
Mewn preseb mor glyd,
Yn faban bach annwyl,
Gwardwr y byd.’

W. RHYS NICHOLAS (1914 – 96)

PWY’N Y BYD YW HWN?

MAE’R gwestai’n llawn ym Methlehem
heblaw am feudy llwm,
O’r gwyll daw wylo baban bach.
Pwy’n y byd yw hwn?

*Tywynna seren ddisglair wen
goruwch y beudy llwm,
Llawenydd dau; gorfoledd lu,
Iesu Grist yw hwn!*

Angylion lu hedfanant fry
uwchben y beudy llwm,
Eu cân a loywa’r preseb moel.
Pwy’n y byd yw hwn?

Bref dafad sydd i’w glywed nawr
gerllaw y beudy llwm,
Bugeiliaid nerfus sy’n troi mewn,
Pwy’n y byd yw hwn?

Mil a Mwy o Emynau

Cyfarchion tri o'r dwyrain pell
a lenwa'r beudy llwm,
Cynhyrfwyd Herod hyd ei fêr.
Pwy'n y byd yw hwn?

DAFYDD JONES, Pencoed Ucha, Pwllglas

CAROL : Y DISGWYL

MAE'R miloedd sêr yn ddawns i gyd
Yn wybren danbaidd Bethlehem
A doethion dwys y dwyrain gwâr
Â disgwyl yn eu trem.
A ddaeth Meseia Duw,
Addewid hael pob proffwyd gynt,
Yn hedd y noson hon
I lawr i'w plith i fyw?

Mae'n cychwyn nawr, ei seren ef,
Yn ddisglair iawn drwy'r awyr fud,
A'r doethion yn ei dilyn hi
Yn ufudd at y crud.
Yn mynd ar sicr daith
Gan siantio salmau hen eu cred
I denau glust yr hwyr,
Wrth droi i'w siwrnai faith.

Arafa'r seren ar ei rhawd,
Daw newydd gyffro eto i'w cam
O'i gweld yn sefyll yn y nef
Yn llonydd, loyw fflam.
Aroglant sawr y gwair
A phlygu pen wrth isel ddrws,
Gan ddwyn eu rhoddion drud
At breseb Baban Mair.

JOHN RODERICK REES (1920 – 2009)

MAE'R NOS YN DDU

MAE'R nos yn ddu, a gwynt nid oes,
Un seren sy'n y nef,
A ninnau croesi maes a bryn
I'r fan y gorwedd ef,
Holl obaith dyn yw ef.

Nid oes ogoniant yn y fan,
Dim ond yr eiddo ef,
A'r golau mwyn ar wyneb Mair
Fel gweddi tua'r nef,
O galon mam i'r nef.

Nid mangre geni t'wysog yw,
Nid man i lawen lu;
Er hynny, clywodd nef a llawr
Ganiadau'r engyl fry,
Orfoledd engyl fry.

O Faban glân, mor brudd yw'n bron
Gan wae sy'n gwywo'n gwedd!
O canwn iti'r bore hwn
Ganiadau newydd hedd,
Ganiadau bythol hedd!

ARTHUR L. SALMON (1865 – 1952)
cyf. T. GWYNN JONES (1871 – 1949)

MAE'R NOS YN FWYN

MAE'R nos yn fwyn ym Methlehem
A chlyd yw'r gwely gwair,
Mae'r llusern fach yn bwrw gwawl
Dros wyneb baban Mair.

O'r dwyrain pell daw doethion dri
I geisio Brenin nef,
Gan roi yr aur a'r thus a'r myrr
Yn offrwm iddo ef.

Mil a Mwy o Emynau

Ar faes y preiddiau dan y sêr
Yn hedd y dawel nos,
Bugeiliaid sydd yn oedi'n syn
I wrando'r anthem dlos.

Mae'r clychau'n anfon dros y tir
Eu melodïau glân,
A daw'r angylion tua'r fan
I ganu geiriau'r gân.

'Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,
Tangnefedd i'r holl fyd,
Ewyllys da a fyddo rhan
Y ddaear oll i gyd.'

W. RHYS NICHOLAS (1914 – 96)

MAE'R NOS YN OER A DU

MAE'R nos yn oer a du,
A rhua'r gwynt trwy'r tŷ
Lle ceir, ar lawr, â'i lygaid mawr,
Y Maban bychan cu;
Medd rhai a fu, â'i gledd a'i lu,
Dôl Un i'n rhoi yn rhydd:
Mae'r nos yn ddu, oer ydyw'r tŷ,
Ac mae'r gwynt yn rhuo'n brudd.

Mae'r du gysgodion mawr
Yn ffoi rhag tonnog wawr,
A'r gwynt a daw, a chân a ddaw
O'r nef ddi-sêr i lawr;
Ond bod uwchben un seren wen
Drwy'r canu'n nofio'r nef:
A'r nos a ffy, claer ydyw'r tŷ,
Ac mae'r gân fel lwlian lef.

Mae'r nos yn oer a du,
Ond hedd a leinw'r tŷ;
 A'r seren wen o hyd uwchben,
A'r gân fel gynt y bu;
 Nid Un a ddaeth â'i gledd a'i saeth
I wared teulu dyn:
 Boed nos yn ddu, claer ydyw'r tŷ,
A'u rhyddhad yw'r addfwyn Un.

T. GWYNN JONES (1871 – 1949)

CAROL Y CREFFTWR

MEWN beudy llwm eisteddai Mair
Ac Iesu ar ei wely gwair;
Am hynny, famau'r byd, yn llon
Cenwch i fab a sugnodd fron.

Grochenydd, eilia gerdd ddi-fai
Am un roes fywyd ymhob clai;
Caned dy dröell glod i Dduw
Am un a droes bob marw yn fyw.

Caned y saer glodforus gainc
Wrth drin ei fyrddau ar ei fainc;
Molianned cŷn ac ebill Dduw
Am un a droes bob marw yn fyw.

A chwithau'r gofaint, eiliwch gân,
Caned yr eingion ddur a'r tân,
Caned morthwylion glod i Dduw
Am un a droes bob marw yn fyw.

Tithau, y gwehydd, wrth dy wŷdd,
Cân fel y tefli'r wennol rydd;
Caned carthenni glod i Dduw
Am un a droes bob marw yn fyw.

Mil a Mwy o Emynau

Llunied y turniwr gerdd yn glau
Wrth drin y masarn â'i aing gau;
Begwn a throedlath, molwch Dduw
Am un a droes bob marw yn fyw.

Minnau a ganaf gyda chwi
I'r Iddew gynt a'm carodd i;
Caned y crefftwyr oll i Dduw
Am Iesu a droes bob marw yn fyw.

IORWERTH CYFEILIOG PEATE (1901 – 82)

NI ANED NEB

NI aned neb erioed i'r byd
Fel Iesu Grist;
Ni fu un gŵr o'i fewn i gyd
Fel Iesu Grist;
O'r holl greadigaeth, gorau gwawr,
Sydd yn y nef a'r ddaear lawr,
Nid oes, ni fu yr un mor fawr
Ag Iesu Grist;
A chofio geni hwn yw'r gân
Sy'n gwneud y nefol deulu'n dân,
Yn don o glod i'w enw glân,
O Iesu Grist!

Ac nid yn unig yn y nef
Mae'r gân i gyd:
Datseinia'r ddaear lafar lef
I Brynwr byd.
Ar ôl y codwm mawr a'i loes,
O Eden draw y dyn a droes
I weled Iesu Grist a'i groes
A chael iachâd;
Edrychai'r tadau hwythau'n hir
Am Iesu gwiw, Feseia gwir,
Ar ddiwrnod byddai'n dod i dir
O dŷ ei Dad.

EBENEZER THOMAS ('Eben Fardd' 1802 – 63)

ADDOLWN GER Y CRUD

NID gyda cherbyd tân
A rhwysg daeargryn cry',
Neu gorwynt i frawychu'r fro,
Y daethost atom ni,
Ond ar hyd ffordd y plant,
Mewn crud, yn faban llon,
A dagrau ar dy emrynt pur,
A chryndod dan dy fron.

*Awn, awn hyd Fethlehem,
Addolwn ger y crud,
Y Baban dynol dwyfol hwn
Yw Crist, Gwardwr byd.*

Mae cofio Nasareth,
Ac aelwyd syml dy fam,
Yn gwneud i'm hysbryd prudd iacháu,
I'm calon roddi llam;
Ti geraist gyfaill pur,
Ti lonnaist gwmni'r wledd,
Ac ym Methania, serchus le,
Ti wylaist uwch y bedd.

Ond mae anfeidrol rym
Yn aros yn dy fraich,
Ac yn dy galon Gariad Duw,
Ni fethaf dan fy maich;
Bûm ger y preseb gwael,
Ac O, y Baban-drem!
Mae'm Ceidwad nid mewn nefoedd bell,
Mae yma'm Methlehem.

Cymru'r Plant, Rhagfyr 1912

JOHN M. HOWELL (1855 – 1927)

Mil a Mwy o Emynau

CAROL

O BOED i werin daear
Fel y bugeiliaid gynt,
Gael clywed cân angylion
Yn dod o flaen y gwynt,
Gan ddwyn newyddion nefol
I lonni'r galon drist,
A'u harwain at y preseb
Lle ganwyd Iesu Grist.

O boed i ddoethion daear
Gael gweld ei seren glir
Yn bwrw ei goleuni
Dros wyneb môr a thir;
Ymbiliwn am i'r seren
Eu tywys hwy i gyd
I Fethlehem Effrata
Gerbron Gwarddwr byd.

O boed i minnau, Arglwydd,
Fod yn bererin taer
Sy'n chwilio am y Baban
A gaed ar fynwes Mair.
Gad imi weld rhyfeddod
Y Duwdod yn y cnawd,
Gweld Ceidwad yn y preseb,
Yn Frenin ac yn Frawd.

WILLIAM DAVIES (1921 –

O DEUED POB CRISTION

O DEUED pob Cristion, cewch gennyf gysuron,
Cydganwn o galon i gyd
O glod i'r Mab bychan fu ar liniau Mair wiwlan,
Daeth Duwdod mewn Baban i'r byd;
O ddyfnder rhyfeddod! O drefen y Duwdod!
Tragwyddol gyfamod a fu!
I agor ffordd rasol i achub ei bobl
'Mostyngodd Duw freiniol oedd fry:
'Mostyngodd mor isel dan wreiddyn ein llygredd
Nes dyfod â'i agwedd fel gwas;
Er llwyted y llety, er gwaeled y gwely,
Fe anwyd yr Iesu trwy ras.

Pan anwyd y Bachgen mor siriol fu'r seren,
Daeth doethion o'r dwyrain cyn dydd;
'Nôl gair y proffwydi hwy gawsant yr Iesu
Yn Geidwad i'n rhoddi ni'n rhydd.
Ond Herod annhirion, y gelyn o galon,
Ac ymddwyn yn greulon a wnaeth:
Ow! Mamau'r babanod, fe'u drylliwyd gan drallod
Wrth ddiodeff trwy syndod y saeth;
Er maint ei elyniaeth yr oedd trefn iachawdwriaeth
A'i gallu yn fwy helaeth o hyd;
Er cymaint o gynnwrf fwriadai'r hen fradwr
Byw eto yw Barnwr y byd.

Ni fedraf mewn geiriau fyth draethu mo'i wyrthiau,
Rhy fychain yw doniau pob dyn,
Na'r seintiau sydd uchod, yn gwbl 'rwy'n gweled
Neb ond y Duw hynod ei hun.
Roedd mab y wraig weddw ar elor yn farw,
Fe 'mwelodd â hwnnw mewn hedd,
Fe'i cododd i fyny, i'w fam cadd ei roddi
Yn lle mynd i bydru mewn bedd.
Bryd arall trwy wyrthiau'n troi'r dŵr yn win gorau,
Pam byddwn ni a'n bronnau mor brudd?
Rhown arno ein pwysau, er mynd i nos angau
Cawn olau fel haul hanner dydd.

Mil a Mwy o Emynau

Wrth gofio am ei loesau yng ngardd Ge'semane
Pa galon na ddrylliai yn ddwy?
Er chwerwed y cwpan fe'i hyfodd ei hunan:
Yn lle'r aflan, un glân aeth dan glwy'.
Daeth llu o Iddewon o dwllwch fel deillion,
Ei gymryd yn union a wnaed;
Fe'i dygwyd o deirgwaith i'w holi'n dra helaeth,
Dim achos marwolaeth ni chaed;
Ond fel 'roedd yn Feichiau, deffroi wnâi'r cleddau
A'i enaid hyd angau trist oedd,
Ein pechod yn pwyso, a Duw yn ymguddio,
Gan faint oedd yn flino rhoes floedd.

Fe waeddodd, 'Gorffennwyd!' a'n dyled a dalwyd
A'n biliau ni a groeswyd gan Grist;
Llawenydd fydd eto, a moliant fydd iddo
Gan filoedd wrth gofio'r awr drist.
Pan ddelo fe â'i Eglwys i'r buredig Baradwys
Ei foli fe'n felys a fydd;
Fe ddaw â'i blant adre o'r moroedd a'r beddau,
Oddi ar angau fe'u rhoddir hwy'n rhydd.
Wrth gofio llawenydd sy 'Nghaersalem newydd
Anghofio 'rwy 'nghystudd yn awr,
'Rwy ynddo'n ymddiried, fe'm dwg o'r caethiwed,
Hiraethaf am weled y wawr.

Rhown glod yn dragywydd, daeth hanes ein Harglwydd
Mewn Testament newydd i ni;
Mae seintiau, angylion, cerwbiaid 'run moddion,
Yn moli'r lôr cyfion, Dduw Tri;
Dymunwn o galon gael meddu'r un moddion
I foli Duw'n ffyddlon drwy ffydd.
O dyro inni adnabod, er camwedd, fod cymod
Trwy'n Priod cyn darfod ein dydd,
I glirio ein heuogrwydd sy'n boen inni beunydd;
Ein Llywydd o tu draw i'r llen,
Mae hedd yn ei haeddiant, rhoi iddo'r gogoniant
Mae miloedd mewn moliant. Amen.

JANE ELLIS (*fl.* 1840)

CAROL PLYGAIN

O DEUWCH blant Duwiol, a'r gân yn blygeiniol
Eleni i ganmol y Gŵr:
Ein Llyw hollalluog, yr Iddew mawreddog,
Efe yw'r Tywysog a'n Tŵr.

Dan seren llawenydd sy'n harddu y wawrddydd
Y down at ein gilydd i gyd
I weled dan olau y grym ddaeth o rwymau
I leddfu holl boenau y byd.

O lwch y llwm loches telyneg o neges
Rhoes seren o hanes mor wych;
O wybod fod baban yn nh'wyllwch tai allan
Dan rastal yn ebran yr ych.

Y grasol fab Iesu, â'n cathl cawn ddathlu
Ei ganfod mewn llety mor llwyd,
Yn iach mewn cadachau, a swyn yn ei synau
Yn cogran heb olau na bwyd.

Â dau ar awr dawel yn huno'n yr anwel
Daeth un o lu Gabriel drwy'r gwyll,
A gwys yn ei gysgod, yn archu i'w warchod
Rhag llid brenin Herod, ŵr hyll.

Y dwyfol a dyfodd a'i allu ni phallodd,
Y llencyn a synnodd y saint.
Iachawdwr pechadur! O geisio ei gysur
Cawn gariad difesur ei faint.

O! Feddyg rhyfeddol a'i fedr anfeidrol,
Orchfygwr y diafol mewn dyn;
Gwae wedyn, y gwawdio a hoelio ei ddwylo
I'r groes a'i hysgwyddo ei hun.

Gwae'r archoll o'i golli, ond awn i gyflawni
Ei waith, drwy gyhoeddi y Gair
Yn aeddfed ac addfwyn ein baich ond heb achwyn
Dros blentyn y lân Forwyn Fair.

VERNON JONES, Bow Street

O DDINAS FECHAN BETHLEHEM

O DDINAS fechan Bethlehem,
A'i llety llwm mor llawn,
Uwchlaw pob stryd y sêr i gyd
A droellai'n dawel iawn.
Ond ar dy strydoedd cysglyd, cul,
Daeth golau'r nef yn lli;
Gobeithion llon y ddaear gron
Gydgwrddodd ynot ti.

Fe anwyd ynot Geidwad dyn,
Ac wele engyl nef
Oll ar ddi-hun, er trymgwsg dyn,
I wyllo'i wely ef.
Cydgenwch, sêr y bore i gyd,
Cyhoeddwch eni'r Crist;
Boed mawl eich côr i'r Arglwydd Iôr
Am gofio'n daear drist.

Mor dawel, O mor dawel gynt
Y daeth y Mab i'n byd.
A chlust ni chlyw lle dyry Duw
Ei rad o'r nef o hyd.
Ond er bod dyn yn fyddar fyth,
Ac er bod byd dan glwy',
Yr Iesu a gâr bob enaid gwâr;
Ymwêl o hyd â hwy.

O Sanctaidd Faban Bethlehem,
Ymwêl â ninnau nawr;
Sancteiddia'n bron i'n gwneud yn llon
Ar Wyl dy gariad mawr.
Rhown groeso i'th Nadolig glân
Mewn anthem a barha,
A'n cartref ni a'th dderbyn di
Yn llawen, Iesu da.

PHILLIPS BROOKS (1835 – 93)
efel. ALBERT EVANS JONES ('Cynan' 1895 – 1970)

CAROL MAIR

OEDRYCH, Joseff, fe ddaeth toriad gwawr,
Ond erys rhyfeddod ein noson fawr.
A deimli dithau mai gwyn yw ein byd
A bod rhyw gyffro o'n cwmpas i gyd?

Mor dda oedd dy gael yn gwmni i mi,
Fe deimlwn gadernid dy gariad di;
Ond gwyddwn fod Rhywun mwy yn y lle
Yn llanw'r holl noson â golau'r ne'.

Ni fedraf anghofio'r doethion yn dod
Â'u rhoddion gwerthfawr a'u geiriau o glod,
A hwythau'r bugeiliaid o lethrau'r bryn
Yn dod i benlinio a syllu'n syn.

A glywaist ti nodau'r garol o'r nef
A'r geiriau bendigaidd amdano ef?
Daeth gwên i sirioli fy Iesu mwyn
Pan glywodd y miwsig a'i ryfedd swyn.

Yr oeddem ein dau o dan fendith Duw
Wrth inni anwylo'r trysor bach byw,
Mor freiniol wyf finnau y funud hon
A Mab y Goruchaf yn sugno 'mron.

W. RHYS NICHOLAS (1914 – 96)

GANOL GAEAF NOETHLWM

OER oedd gwynt y gaeaf,
Cwynai dan ei gur,
Oer oedd dŵr a daear,
Caled megis dur;
Ôd oedd ar lechweddau,
Ôd ar fryn a dôl,
Oer oedd gwynt y gaeaf,
Oesau'n ôl.

Mil a Mwy o Emynau

Mwy ein Duw na'r nefoedd,
Mwy na'r hollfyd crwn,
Derfydd nef a bydoedd
Pan deyrnasa hwn;
Ganol gaeaf gerwin,
Llety tlawd a thrist
Roed i'r Duw anfeidrol
Iesu Grist.

Diau fod angylion
Wedi dod ynghyd;
Cerwbim a seraffim
Gylch ei grud;
Dim ond Mair y Wry,
Wyliai'r Un di-nam,
Allai droi'n addoliad
Gusan mam.

Minnau yn fy nhlodi,
Beth a rof i hwn?
Pe bawn i yn fugail
Rhoddwn oen, mi wn:
Rhoes y doethion iddo
Gynt drysorau mawr;
Minnau rof fy nghalon
Iddo nawr.

CHRISTINA ROSSETTI (1830 – 94)
cyf. H. J. HUGHES (1912 – 78)

PA BETH YW'R GOLAU MAWR . . .

PA beth yw'r golau mawr a glân
Uwch llewyrch haul y nef?
Pa beth yw sŵn yr hyfryd gân
Gerllaw hen Fethlem dref?
Angylion nef a ddaeth i lawr
O lys yr uchel Dduw,
I ddatgan geni Ceidwad mawr
I achub dynol-ryw.

A dyma'r gân: 'Na foed i'ch bron
Un ofn ar hyn o bryd,
Mynegi 'rwyf newyddion llon
A berthyn i'r holl fyd:
Cans ganwyd Ceidwad teg ei wedd
Yn ninas Dafydd wiw,
Yr hwn yw Crist, hardd Frenin hedd
A Mab y bythol Dduw.

'A hwn yw'r arwydd wrth ba un
Y gwelwch Faban Iôr,
Mae wedi'i rwymo'n wael ei lun
A'i ben ar wellt y côr:
Efe yw'r gwaelaf yn y dref,
Ni welwyd neb mor dlawd,
Er hyn i gyd mae'n Frenin nef,
Mae'n Dduw er bod mewn cnawd.'

Ar hyn dyrchafodd lleisiau fil
Yn gytgor fwyn i'r gân,
O gariad at y ddynol hil
A mawl i'r Baban glân:
'Gogoniant yn yr uchel nef
I'r Duwdod mawr ei hun,
Tangnefedd ar y ddaear gref,
Ewyllys da i ddyn.'

I Faban Mair a ddaeth yn dlawd
Er dwyn in olud nef;
I'r unig Dduw a ddaeth mewn cnawd
Dyrchafwn ninnau lef
O fawl, a rhoddwn goron cân
Yn barchus ar ei ben,
Mae'n haeddu y gogoniant glân
A'r moliant byth. Amen.

JOHN WILLIAMS ('Ab Ithel' 1811 – 62)

PA BETH YW'R MAWL A'R CANU MWYN . . .

PA beth yw'r mawl a'r canu mwyn
Cyn toriad gwawr y dydd?
Newyddion da sy'n cael eu dwyn
Fod dyn yn awr yn rhydd.

*Ymunwn ninnau yma nawr
Ar gyhoedd yn y gân,
A seiniwn fwyn Hosanna fawr
O glod i'r Baban, i'r Baban glân.*

Dros lawer blwydd bu disgwyl blin
Am weld y dwyfol Air;
Wel dacw'r Baban bach ar lin
Y fwynaidd Forwyn Fair.

Mae Bethlem dir yn olau dân
O naws gogoniant nef,
A'r lle i gyd yn llawn o gân
Yn dweud ei gariad ef.

Hwn ydyw dwyfol had y wraig
Addawyd fore'r byd;
Daeth i ysigo pen y ddraig,
A'r preseb yw ei grud.

Efe yw'r Proffwyd, ef yw'r Sant,
Gogoniant Israel Duw,
Efe yw Prynwr mawr ei blant
A Christ yr Arglwydd yw.

Gadawodd wlad y nefol wledd,
Yr ardal brydferth fry,
A daeth i boen, a'i daith i'r bedd,
I'n dwyn yn ôl i'w dŷ.

Pan oedd bugeiliaid ar y rhos
Yn gwylio'u defaid claf,
Yn olau nawn y daeth liw nos
A'r gaeaf droes yn haf.

Tywynnai seren uwch y dref
Fel lamp yn nhemel Duw
I ddatgan geni Brenin nef
Yn Geidwad dynol-ryw.

Ehedai engyl disglair Iôn
I lawr ar Fethlem dref,
A chanent ar soniarus dôn
Ei gân Nadolig ef.

Gogoniant yn yr uchel sedd
I enw mawr ein Duw,
Ac ar y ddaear hyfryd hedd
O ras i ddynol-ryw.

JOHN WILLIAMS ('Ab Ithel' 1811 – 62)

MYFYRION NADOLIG

PA le, Jerwsalem,
Mae'r Brenin Iesu?
Gawn ni, genhedloedd pell,
Ddod i'th addoli?
O gyrrau tir y dwynen,
Er pan gollasom Eden,
Teithiasom wrth ei seren,
I'ch dinas mawr-fri.

Mae'r seren yn y de
Uwch dinod dreflan,
Yn gwenu gyda Mair
Ar blentyn egwan:
Efe yw'n Brenin tirion!
Rhown ar ei ben bob coron!
Cyflwynwn iddo'n calon!
O ddwyfol Faban!

JOHN M. HOWELL (1855–1927)

CAROL NADOLIG

PA le mae y seren â'i llewych mor llawen
A arweiniodd y doethion i'w hynt?
A pha le mae anthem yr engyl uwch Bethlem
A seiniai ar adain y gwynt?
Mae'r sêr oll yn gwenu, a daliant i dynnu
At breseb yr Iesu o hyd;
A cheir is eu golau hen fiwsig carolau
Am ddyfod Nadolig i'n byd.

Pa le mae'r anrhegion a ddygodd y doethion
I'w gosod wrth draed Baban Mair?
A oes i'r bugeiliaid yr awron gymheiriaid
I blygu wrth wely o wair?
Fel ar Wyl y Geni fe welir eleni
Rai'n hael iawn wrth roi iddo ef:
Ac fel gwŷr y werin a blygodd i'w brenin,
Addolwn Etifedd y nef.

A oes yn y llety well cysgod i'r Iesu
Nag ydoedd ym Methlehem draw?
A pha le mae Herod, wr creulon ei ddyrnod,
Fu'n difa'r diniwed mewn braw?
Nid erys gorchymyn na gweithred un gelyn
Fel Herod yn hir ym myd Duw;
A heddiw rhown groeso i'r hwn sy'n ei hawlio
A'i enw'n oes oesoedd i fyw.

JOHN ROBERTS, Llanfwrog (1910 – 84)

PA MOR BELL YW BETHLEM DREF?

PA mor bell yw Bethlem dref?
Nid pell yw hi.
Gawn ni olau'r seren glir
I'n harwain ni?
Gawn ni weld ei lety llwm,
Os yno'r awn?
Os agorwn ni y drws,
Pa groeso gawn?

Gawn ni gyffwrdd oen neu ych,
Neu asyn blin?
Gweld y fam a'r Baban bach
Gwsg ar ei glin?
Os cyffyrddwn yn ei law
Â dwylo mwyn,
Ddeffry ef a'n gweled ni –
Ddaeth er ei fwyn?

Dygwyd aur a thus a myrr
Gan ddoethion hen.
Dyma'n hunig roddion ni –
Deigryn a gwên;
Er na feddwn roddion drud
I'w rhoi i ti,
Rhown ein calon fach yn llwyr
O cymer hi.

Baban Mair i'r byd a ddaeth
Yn Dduw a dyn;
Rhydd efe i galon plant
Fendith mewn hun.
Huno wedi blino mae
Holl blant y byd:
Gwylia cariad dwyfol glân
Drostynt o hyd.

FRANCES CHESTERTON (1875 – 1938)
cyf. G. WYNNE GRIFFITH (1883 – 1967)

PRYDER MAIR

PAHAM y daethost, nefol aer,
At Joseff mwyn a mi?
Y duwddyn yma'n fab y saer!
Ond heno, cysga di.

Anesmwyth ydyw cwyn y gwynt
A thrwm fy nghalon i;
Mae milwyr Herod ar eu hynt,
Ond heno, cysga di.

Mil a Mwy o Emynau

Ceir aur a thus yn arwydd hedd
Gan dywysogion dri;
Ceir chwerw fyrr, a chroes a bedd
Ond heno, cysga di.

Bugeiliaid ddônt oddi wrth eu tasg
Gan ddwyn oen bach heb gri;
Tydi, fy oen, tydi yw'n Pasg!
Ond heno, cysga di.¹

STEPHEN JONES, Ponciau, Wrecsam

CAROL

PAM mor llachar, sêr y nos,
Pleiades a Seirios?
Christus natus hodie,
Goleuni'i hun, yn Dduw a dyn, a anwyd.
I bwy mae'r môr yn canu'i rŵn,
Awel leddf yw lwlian sŵn?
Ex Maria Virgine,
I faban nef ym Methlem dref a gafwyd.

Noël. Noël. Noël.
Ar ganolnos gudd, serenog,
Heb na chri na gwewyr esgor,
Llithrodd Iesu, berl y nef, o groth ei fam.
Noël. Noël.

Seraffin a Cherwbin,
Pa ryfeddod aned in?
Ecce qui creavit nos,
Mae'r nef yn salm, fe gafwyd balm Gilead.
Sabwlon a Nafftali,
Darfu'ch hir gystuddiau chwi,
Lux fulgebit super vos,
Fe heuwyd gwawr fel gw lith ar lawr y cread.

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Wrecsam a'r Cylch 1977.

Noël. Noël. Noël.
Ar ganolnos gudd, serenog,
Heb na chri na gwewyr esgor,
Llithrodd Iesu, berl y nef, o groth ei fam.
Noël. Noël.

SAUNDERS LEWIS (1893 – 1985)

IN EXCELSIS GLORIA

Christo pavemus canticam In excelsis gloria.

PAN aned Crist ym Methlehem dref,
O Fair drwy fendith wen y nef,
Canodd yr engyl ag un llef:
In excelsis gloria.

Gwelodd bugeiliaid, cyn y wawr,
Yr engyl mewn goleuni mawr.
Lleasant: “Ganwyd Crist yn awr:
In excelsis gloria.”

Rho, ein Harglwydd, inni’r wledd
O edrych ar dy nefol wedd
A’th foli di tu draw i’r bedd:
In excelsis gloria.

Y Dysgedydd, Rhagfyr 1942

HYWEL DAVIES
Carol o’r Saesneg Canol (c. 15fed ganrif)

IN EXCELSIS GLORIA

PAN anwyd Crist, ein Harglwydd Iôr,
Ym Methlehem ar draws y môr,
Llanwyd y nef â’r newydd da:
In excelsis gloria.

Cyhoeddodd engyl uwch ei grud
Dangnefedd dwyfol i’r holl fyd,
Gobaith cenhedloedd blin tan bla:
In excelsis gloria.

Mil a Mwy o Emynau

Cyduned daear â llu'r nef
I ganu croeso iddo ef.
Iesu yn unig a'n hiachâ:
In excelsis gloria.

Er bod y gwledydd heddiw'n sarn
Mewn arswyd rhag taranau'r Farn,
Gras y Nadolig a barha:
In excelsis gloria.

Fy enaid, derbyn dithau'r gair
A ganwyd gynt am Faban Mair.
Gyda'r angylion llawenha:
In excelsis gloria.

ALBERT EVANS JONES ('Cynan' 1895 – 1970)

YSBRYD Y NADOLIG

PAN fydd ysbryd y Nadolig
Yn ymledu dros y tir,
Clywir clychau eto'n canu,
Gan atseinio neges glir
Am y geni yn y preseb
Draw yn ninas Bethlehem,
Mair yn suo'r Baban addfwyn
Oedd â'r dwyfol yn ei drem.

Cofir am y llu angylion
Â'u newyddion yn y nos,
Yn rhoi syndod i'r bugeiliaid
Wrth y gorlan ar y rhos;
Hwythau'n mynd at wyrth yr oesau
Yn y llety yn y dref,
A dychwelyd at y preiddiau
Â llawenydd yn eu llef.

Cofir am y seren ryfedd,
A'i goleuni'n arwain tri
O frenhinoedd at y Brenin
Sydd yn cynnig hedd i ni;
Daethant hwy o bell â'u rhoddion,
Aur a thus a myrr yn rhad,
Yna'n troi ar hyd ffordd arall
I genhadu yn eu gwlad.

Mae yr ŵyl o hyd yn dangos
Y goleuni gwir i'r byd,
Ac yn tywys nid at orsedd
Ond at Faban yn ei grud;
Yno ganwyd inni Geidwad,
Yn ôl addewidion Duw;
Mae yn deilwng o'r gogoniant
Am ei ddod i'n plith i fyw.

D. J. THOMAS (1916 – 99)

BOED NOËL

PRAIDD ar y twyn yn gryno,
Gwyliai bugeiliaid yno,
Draw ar y twyn,
Tawel a mwyn:
Boed Noël Noël Noël.

Yna'r oedd cân yn hoyw,
Awyr y nos yn loyw,
Llawen y gân
Yno a glân:
Boed Noël Noël Noël.

Golau uwchlaw'n ymdaenu,
Rhyfedd uwch bro'n lledaenu,
Gwylwyr mewn braw,
Plygu gerllaw :
Boed Noël Noël Noël.

Mil a Mwy o Emynau

Engyl yn awr yn canu,
Newydd oedd dda'n datganu:
Brenin sy fawr
Yma i lawr:
 Boed Noël Noël Noël.

Mab oddi fry a rodded,
Preseb sy'n wyn o'i nodded;
Ceisiwch yn hy,
Seren o'n tu:
 Boed Noël Noël Noël.

Gwylwyr yn hir ryfeddu,
Aethant dan ogoneddu,
Noson yn ir,
Seren glir:
 Boed Noël Noël Noël.

Baban yn llun gogoniant,
Hwythau am Dduw a soniant:
Crymai pob un,
Plygai pob clun:
 Boed Noël Noël Noël.

EUROS BOWEN (1904 – 88)

'ROEDD YN Y WLAD HONNO

'**R**OEDD yn y wlad honno fugeiliaid yn gwylio
Eu praidd rhag eu llarpio'n un lle;
Daeth angel yr Arglwydd mewn didwyll fodd dedwydd
I draethu iddynt newydd o'r ne',
Gan hyddysg gyhoeddi fod Crist wedi'i eni,
Mawr ydyw daioni Duw Iôr;
Bugeiliaid pan aethon' i Fethlem dre dirion
Hwy gawson' Un cyfion mewn côr:
Mab Duw tragwyddoldeb yn gorwedd mewn preseb,
Tri'n undeb mewn purdeb heb ball,
Cydganwn ogoniant yn felys ei foliant,
Fe'n tynnodd o feddiant y fall.

Ni chafodd Mair burwen o amgylch ei bachgen
Na rhwymyn, na gwlanen yn glyd,
Na pherlau, na pharlwr, na seigiau, na siwgrwr,
I Brynwr a Barnwr y byd.
Hi roes am yr Iesu gadachau i'w g'nesu,
A'r preseb yn wely'n ddi-wad,
O gwelwch Mair ffyddlon mor isel, mor raslon
Yn magu'n dra thirion ei thad;
Rhoes laeth i famaetha ei Brenin o'i bronnau,
A'i drin ar ei gliniau drwy glod;
O'i chroth yr esgorodd, o'i dwyfron y porthodd
'R hwn ydoedd cyn bydoedd yn bod.

Fe wybu'r sarff wrthun 'r ysigid ei cholyn
Pan anwyd anwylddyn y ne',
A'r ddraig a ddechreua ryw filain ryfela,
Ei harfau'n rhai llyma'n mhob lle:
Rhoed diafol yng nghalon yr hen Herod greulon
I ladd y Mab ffyddlon heb ffael,
Ond Mair gyda'i phlentyn i'r Aifft aeth yn sydyn
Lle methodd y gelyn ei gael:
Ca'dd bechgyn bach Jwda eu lladd yn glanedda'
Wrth geisio cael difa Mab Duw,
Er cymaint o'r bechgyn a laddodd y brenin
Mae Crist gyda'i fyddin yn fyw.

Ei erlid a'i gablu a'i ddirfawr ddiystyru
A gafodd ein Iesu yma o hyd,
Rhyw dldion o ddynion oedd felly ei gyfeillion
Nid mawrion na beilchion y byd;
Mae fe eto'r un moddion trwy ryfedd ymadroddion
Ymhlith y rhai gwaelion i'w gael:
I'r cloffion a'r deillion, byddarion a mudion,
Mae'n feddyg da ffyddlon heb ffael,
Mae'n Frenin trugarog, mae'n porthi'r newynog,
Mae'n galw rhai llwythog 'n un llu:
I'r gwan mae'n Frawd ffyddlon, mae'n Dad i'r afradlon;
Fe'u derbyn yn dirion i'w dŷ.

Mil a Mwy o Emynau

Mae Crist yn wir briod i'r Eglwys, Oen eurglod,
Ceir canfod rhyw ddiwrnod a ddaw;
Fe fyn ei ddyweddi yn bur wedi ei golchi
Heb arni na brychni na braw:
Sain utgorn uchelder a glywir ar fyrder
A'r meirw o bob dyfnder yn dod,
A'r bachgen bach Iesu, oedd Mair yn ei fagu
Fydd eto yn ein barnu ni'n bod;
Pan fo'n byd yn llosgi a'r moroedd yn berwi
Pob defnydd yn toddi mewn tân,
Bydd holl blant yr Arglwydd yng Nghaersalem newydd
Lle y pery'n dragwyddol eu cân.

Arch Noah pan ydoedd uwchlaw y mynyddoedd
Ni chadwodd o'r dyfroedd ond wyth,
Crist ydyw'r arch nerthol rhag dilyw tragwyddol
Bydd bywiol a llesol y llwyth;
Pob enaid nas daethon' i'r arch at No' ffyddlon
Boddason' o fawrion i fân:
Pob enaid nas gwelir yng Nghrist yr arch cywir
Mae'n bur wir y llosgi yn lân:
Fe lysg yr annuwiol mewn ffwrnais uffernol
Lle bydd yn dragwyddol eu gwae,
Mewn carchar diddiwedd holl ddrysau trugaredd
Yn caffael o'u cyrraedd, eu cau.

At Grist a'i bur gariad mae heddiw wahoddiad:
Mae lle i bechaduriaid gael dod,
I'r farn rhaid ein galw, gwell Crist y dydd hwnnw
Nag aur wedi ei gadw mewn cod;
Ffown, ffown i'r 'mddiffynfa fel Lot a Sodoma,
Rhag caffael ein difa'r un dydd;
O'r Aifft gwell ymado er cael ein gw'radwyddo
Na boddi fel Pharo ddi-ffydd,
Gwell myned i'r bywyd fel Laz'rus o'i adfyd
Oedd rywbyrd yn nychlyd ei nyth
Na Deifas o'i fawrfri yn gorfod bod wedi
A'r fflamau'n ei boeni fe byth.

Nac ofnwch, blant Seion, fe welir duwiolion
A'u gynau'n dra gwynion i gyd,
Yn lân wedi'u cannu yng ngwerthfawr waed Iesu
Er maint fu i'w baeddu'n y byd:
Yn rhyddion o'u cystudd yn canmol eu Harglwydd
Yn cario hardd balmwydd bob un
Mewn teyrnas uwch daear, fel haul yn dra hawddgar,
Heb garchar na galar na gwŷn:
A'r bachgen bach Iesu fydd testun y canu,
Fu'n gwaedu i'n prynu ar y pren;
Yn ffyddlon gantorion, o nifer plant Seion,
Bôm ninnau'r un moddion, Amen.

JOHN RICHARDS ('Siôn Ebrill' 1745 – 1836)

CAROL

'**R**WY'N barod am y daith dros fôr a thir
Fel doethion ddaeth o'r dwyrain ddyddiau gynt;
Fry uwch fy mhen mae golau seren glir
Yn gyfaill a thywysydd ar fy hynt.
Lle bynnag saif y seren uwch ein byd
Mi wn y byddi yno'n siglo'r crud.

Creulondeb a chasineb ymhob man
A Herod wrth ei waith dros wlad a thref,
Ond gwn fod Brenin newydd, baban gwan,
Sy'n dod â chariad Duw i'w fyd o'r nef.
Lle bynnag saif y seren uwch ein byd
Mi wn y byddi yno'n siglo'r crud.

Y doniau roddwyd inni gan ei Dad
A roddaf yn anrhegion i Fab Duw,
A phan ddaw'n bryd dychwelyd i'r hen wlad
Mi fydd y ffordd yn newydd a chaf fyw.
Fe safodd seren Bethlem uwch ein byd
A thithau gyda ni yn siglo'r crud.¹

EURYN OGWEN WILLIAMS

¹ Buddugol yng nghystadleuaeth Carol 2010, *Y Tyst*, Rhagfyr 16, 2010.

SEINIAU GORFOLEDD

SEINIAU gorfoledd o Fethlem a glywir,
Peraidd eu hatsain dros lechwedd a bryn,
Tyr eu cynghanedd ar draws tiroedd Cymru,
Gobaith a ddygant i'r gwyw erwau hyn;
Ganwyd in Brynwr, a chadarn Iachawdwr,
Rhown iddo lety, yr Arglwydd a'i myn.

Cefnu ar olud y nef a wnaeth Iesu,
Rhannodd ein newyn a'n syched fel brawd;
Rhyfedd ei osod mewn preseb anifail,
Syndod ei eni mewn beudy mor dlawd;
Canwn ei glodydd, ein gwrol Achubydd,
Dygodd o'i wirfodd ein dirmyg a'n gwawd.

Dygwn at ymyl ei breseb anrhegion,
Ddwyrain, Gorllewin, a Gogledd a De;
Ddoethion, offrymwch ddyledus wrogaeth,
Chwithau fugeiliaid – mae digon o le!
Hwn yw'r Gwardwr, ein hunig Waredwr,
Ef gaiff y moliant a neb ond efe.

Dathlwn ryfeddod y geni o wryf,
Ceidwad yn cysgu mewn crud yn y gwair;
Ynddo ef gwelwyd gwir ddelw y Duwdod,
Stamp y tragwyddol ym mherson Mab Mair.
Iddo bo'r moliant, y clod a'r gogoniant,
Daeth i'n gwaredu, a gwir yw y Gair!

MAURICE LOADER

SEREN WEN

SEREN wen, pa beth a welaist ar dy rawd?
Mab y Duwdod mewn cadachau,
Aer y nef yn wan mewn rhwymau,
Brenin daear heb drysorau
Yno'n dlawd.

Seren wen, pa beth a welaist ar dy hynt?
Golau gwyn o wlad gogoniant,
Engyl glân yn seinio moliant,
A'u hanthemau yn llifeiriant
Ar y gwynt.

Seren wen, pa beth a welaist yn ein byd?
Doethion daear yn ymgrymu,
Syn werinwyr yn rhyfeddu,
Ceidwad dyn ynghwsg mewn beudy,
Trysor drud.

Seren wen, llewyrcha ar ein llwybrau nawr,
Â'th sirioldeb yn ein llonni,
A'th belydrau'n ysbrydoli,
Tywys ninnau i oleuni
Dwyfol mawr.¹

MYFANWY BENNETT JONES, Llanfairpwllgwyngyll

SI-LWLI, SI-LWLI, FY MABAN

SI-LWLI, si-lwli, fy Maban mor wych,
Mae preseb i'r asyn, mae llety i'r ych;
Cei gysgod, fy Maban, o'r nefoedd, fan hyn,
Si-lwli, si-lwli, fy Maban bach gwyn.

Si-lwli, si-lwli, fy Maban mor bur,
Mor welw yw golau y lamp ar y mur;
Tywynnu o'r nefoedd mae golau sydd well
I arwain y doethion a deithiodd o bell.

Si-lwli, si-lwli, fy Maban, medd Mair,
Mae Joseff yn taenu dy wely o wair;
Cei gysgu yn dawel ym mreichiau dy fam,
Yn ddiogel rhag adfyd a gofid a cham.

E. J. FALCONER
cyf. D. EIRWYN MORGAN (1918 – 82)

¹ Cyd-fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Abergwaun a'r Fro 1986.

HWIANGERDD MAIR

SUAI'R gwynt, suai'r gwynt,
Wrth fyned heibio i'r drws:
A Mair ar ei gwely gwair
 Wyliai ei baban tlws:
Syllai yn ddwys yn ei wyneb llon,
Gwasgai Waredwr y byd at ei bron:
 Canai ddiiddanol gân,
 Cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,
 Cwsg nes daw'r bore iach,
 Cwsg, cwsg, cwsg.

Cwsg am dro, cwsg am dro,
 Cyn daw'r bugeiliaid hyn:
A dod, dod i seinio clod,
 Wele, mae'r doethion syn;
Cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,
Cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun;
 Cwsg, cyn daw'r groes i'th ran;
 Cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,
 Cwsg nes daw'r bore iach,
 Cwsg, cwsg, cwsg.

W. NANTLAIS WILLIAMS ('Nantlais' 1874 – 1959)

TAWEL NOS

TAWEL nos, sanctaidd y nos,
Eira ail dail y rhos
Sydd yn llathru'r to, a Mair
 Ar ei gliniau yn y gwair;
Wele mewn preseb mae Duw.
Wele mewn preseb mae Duw.

Tawel nos, sanctaidd y nos,
Llonydd wyn, llyn a ffos;
Cariad biau'r awr, mae'r ŵyn
Difref cyntaf ger y twyn;
Wele, fe anwyd Oen Duw.
Wele, fe anwyd Oen Duw.

JOSEPH MOHR (1792 – 1848)

Cyfaddasiad o'r Almaeneg STILLE NACHT gan SAUNDERS LEWIS (1893 – 1985)

TRAMWYWN AR GYFLYM ADENYDD

TRAMWYWN ar gyflym adenydd
Myfyrdod i Fethlem yn awr,
I weled ffynhonnell llawenydd
Angylion a lluoedd y llawr.

Os canu yn fwyn ac ardderchog
Wnâi engyl wrth weled eu Duw,
Ai ni roddwn ninnau fawl serchog
I'r Iesu? Ein Prynwr ni yw!

Cans er ein mwyn ni ei wael ddynion
Gadawodd bob mawredd a bri,
Ac er ein mwyn ni ei elynion
Y daeth ef i lawr i'n byd ni.

Ac er ein mwyn ni mewn gwael feudy
Y ganwyd e'n faban tylawd,
Ac O, er ein mwyn y bu'n gwaedu
Ar groesbren mewn dirmyg a gwawd.

Er gwared rhyw adyn colledig
A llwyr felltgedig fel fi,
Y gwelwyd yr Iesu'n hoeliedig
A'i waed ef yn rhedeg yn lli.

O, rhyfedd oedd gweled Creawdwr
A Llywiwr y bydoedd i gyd
Yn dyfod i fod yn Iachawdwr
I brynu pechadur mor ddrud.

O, gwylw'n rhag bod yn golledig
Ar ôl y fath gymod a gaed,
Ar ôl i'n Creawdwr caredig
Ein caru a'n prynu â'i waed;

Os daliwn i wrthod galwadau
Yr Iesu tra'n galw y mae,
Ni wna ei holl ddrud ddioddefiannau
Ond echrys 'chwanegu ei wae.

Mil a Mwy o Emynau

Pwy bynnag a ffy am dderbyniad
At Iesu, ein Pabell wir gref,
Gan roddi iawn serchog ymlyniad
Wrth ei orchymynion pur ef,

Ei sylfaen bob awr fydd safadwy,
Ni chryn ei adeilad un dydd,
Er rhuo holl stormydd ofnadwy
Y fagddu – diogel a fydd.

RICHARD FOULKES EDWARDS ('Rhsiart Ddu o Wynedd' 1836 – 70)

TRI YM NI O'R DWYRAIN DRAW

TRI ym ni o'r dwyrain draw,
Dygwn roddion yn ein llaw,
Dros fynyddoedd, trwy ddyffrynnoedd,
Canlyn a wnawn heb fraw.

*O, seren ryfedd, seren nos,
Seren freiniol, brydferth, dlos,
I'r gorllewin, wrth dy ganlyn,
Yn dywysydd inni, dos.*

¹ *Melchior:*

Aur a roddaf iddo ef
Aned draw ym Methlem dref,
Brenin oesol, a thragwyddol,
Byth bo ei deyrnas gref.

² *Caspar:*

Wele thus yn rhodd i Dduw,
Arwydd gwir o weddi yw,
Mawl a gweddi fo'n cyfodi
Byth o hil dynol-ryw.

^{1,2,3} Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gynharaf ynglŷn â'r enwau hyn i'w gweld mewn brithwaith o'r 5ed ganrif yn Eglwys San Apollinaire Nuovo, Padua, Yr Eidal.

³ *Balthasar*:

Myrr a roddaf innau'n wir,
Dengys ofid, poen a chur,
Ei gystuddiau dwys a'i angau
Gafodd dan hoelion dur.

Atgyfododd, torrodd gwawr,
Brenin, Duw ac aberth mawr,
Halelwia! Halelwia!
Canu mae daear lawr.

J. HENRY HOPKINS (1820 – 91)
cyf. J. DAVIES ('Isfryn' 1861 – 1948)

TYDI FU'N CYNNAU'R SEREN

TYDI fu'n cynnau'r seren
Â fflam dy gariad drud,
O galw ni i rodio'n
Ei llewyrch at dy grud.

Tydi fu'n donio'r engyl
I foli Aer y nef,
O dwg eu cân i'n tywys
Drwy'r daith i Fethlem dref.

Tydi fu'n dewis morwyn
I eni'r dwyfol Air,
O rho in ras i weled
Dy lun ar liniau Mair.

Tydi fu'n pennu cymod
I'r byd drwy'r crud a'r groes,
O pâ'r i enw'r Iesu
Fod arnom drwy ein hoes.¹

T. ELFYN JONES (1914 – 2008)

¹ Cyd-fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Abergwaun a'r Fro 1986.

CAROL

UN noson oer o dan y lloer
Flynyddoedd maith yn ôl,
Tri gŵr a ddaeth 'r ôl dyrys daith
Dros fawnog fryn a dôl
I Fethlehem, i lety'r ych,
A chynnig eu hanrhegion gwych.

Ar drywydd hir dan seren glir
O'r dwyrain daeth y tri
Yn wylaidd ddod i gynnig clod,
Ufudd-dod, mawl a bri.
Ym Methlehem, caed baban bach
Mewn preseb llwm, o ddwyfol ach.

Ar lethrau'r bryn, bugeiliaid syn
Fu'n gwarchod praidd liw nos
Pan glywyd cân angylion glân
Yn treiddio uwch y rhos;
I Fethlehem y cyrchwyd hwy
I ganfod Un i'w foli mwy.

Rhoed trefen glir a chymod gwir
Rhwnge pobloedd bach a mawr,
Tangnefedd gaed, cyfamod wnaed
Rhwnge Duw a Dyn yn awr.
Ym Methlehem fe dorrodd gwawr
Yn obaith mwy i ddaear lawr.

PETER M. THOMAS

UNWAITH CODODD SEREN RYFEDD

UNWAITH cododd seren ryfedd
Ar ein byd cyn toriad gwawr,
A dewiniaid welodd bigau
Honno'n pwyntio tua'r llawr.
Yn y fan yr oedd bugeiliaid
Ar eu traed drwy'r oriau mân
Yn gweld gwyrth y geni roddodd
Eu calonnau oer ar dân.

Fel diferion gwêr y gannwyll
Yn y gwynt drwy dyllau'r ddôr
Toddodd garwedd eu hwynebau
Yn yr awel grwydrai'r côr;
Gweled rhywun mewn cadachau,
Clywed cân angylion nef,
Teimlo'r grym a gerddai'r ddaear
Yn ei enedigaeth ef.

Sbiai llygaid llaith yr ychen
Gyda hwy drwy giliau'r dellt
Ar ryfeddod pob rhyfeddod,
Baban Mair mewn gwely gwellt:
Perl mewn preseb, gem mewn rhigol,
Aur y byd mewn tlodi roed,
Holl belydrau'r cread gneitiodd
Ar y t'wyllwch mwya' 'rioed.

MOSES GLYN JONES (1913 – 1994)

CAROL

UNWAITH eto 'rŷm yn cofio
Gŵyl y geni megis gynt.
Draw ym mhentre Bethlem dirion
Heibio'r drws y chwytha'r gwynt.
Wele drysor yma'n huno:
Iesu Grist ar wely gwair.
T'wysog heddwch, y Meseia,
Ein Gwardwr, dyma'r Gair.

Addewidion a gyflawnwyd:
Newyddion Da i bob un.
Deuwn ninnau i'w addoli
Tua Bethlem yn gytûn.
Clywed cân yr engyl eto
Yn atseinio'n swynol glir.
Rhoddion gwerthfawr gan y doethion
Ar eu taith o bell yn wir.

Mil a Mwy o Emynau

Megis galar gynt yn Rama
Torri egin ir i lawr.
Cais y brenin ydoedd hwnnw
Do, bu yma alar mawr.
Duw a ofalodd am Iesu:
Baban egwan yn ei grud,
Brawd a Chyfaill welir yma
A Gwardwr i'r holl fydd.

MARGARET G. GRIFFITHS, Llaingoch, Caergybi

WEL DYMA'R HYNOD WYL NADOLIG

WEL dyma'r hynod wyl Nadolig
A haeddai ei chadw yn barchedig;
Hwn yw'r boreddydd! Mab a roddwyd
Yn feddyg inni, ac fe'i ganwyd!
Mawr ryfeddod sydd i'w ganfod
Â pharod lygaid ffydd,
Awdwr odiaeth lachawdwriaeth
Mewn cnawdoliaeth cyn y dydd;
Wele'n wiwlan Fab sancteiddlan
Nawr yn ein hanian ni,
Rhyfedd burdeb a disgleirdeb,
Anfeidroldeb Un yn Dri.

O waith fod Adda'n ddyn syrthiedig
A'i hil i gyd yn halogedig,
Daeth Iesu Grist i'r byd i rodio
Gan wisgo natur dyn amdano;
Mae'r hanes hynod yma'n barod
Ar dafod gan bob dyn,
Yn y beudy ganwyd Iesu,
Pob dyn sy'n gwybod hynny ei hun;
Mae hanes hefyd am ei fywyd,
Ei flinfyd ef a'i loes,
A chyfyng gyflwr ein Hiachawdwr
A'n Gwardwr ar y groes.

'Does neb yn gweled gwerthfawrogrwydd
A gogoniant Crist ein Harglwydd
Ond yr enaid trallodedig
Ar fôr o wydr sy'n friwedig;
'R hwn sy'n profi ei ddaioni
A all werthfawrogi ei ras,
A'r hwn sy'n gweled ei ddrwg waeledd
A'i ffaidd lygredd, camwedd cas;
Dyma gwynfan enaid truan,
'Pechadur aflan wyf,
Wedi soddi mewn trueni,
Yn fy ngh'ledi, dan fy nghlwyf.'

Mae Duw yn newid dyn annuwiol
Ac yn ei ddwyn o'r Aifft ysbrydol;
Lle mae'r enaid llwm ar rynnu,
Mewn halogrwydd yn ymlygru,
Mae fe'n aros mewn anwiredd
A môr o lygredd maith,
Nes cael troad a dychweliad,
Cyfnewidiad cyfiawn waith;
Nid oes gallu dwys nac 'wyllys
Daionus mewn un dyn,
Ac ni all eiddil, gwannaf llwyddiant,
Gyda'i haeddiant gadw ei hun.

Pan welo dyn ei stad golledig
Mae'n gwyro'n adyn llwyr grynedig,
Fe gwyd y truan gwan anghenus
At frenin nef ei lef wylofus:
'Bywyd! Bywyd im, f'Anwylyd!'
Hyn yw ei grynlyd gri,
'Arglwydd nefol, Dad tosturiol,
Edifeiriol ydwyf fi!'
O breswylfod bur y Drindod
Daw iddo ollyngdod llawn,
Gwardigaeth rhag marwolaeth
Ac Iachawdwriaeth, uchaf dawn.

Mil a Mwy o Emynau

Ffordd y groes yw ffordd y Cristion,
Ffordd sy'n llawn o bob peryglon:
Rhaid mynd drwy ganol llu'r gelynyon
At dir Beulah drwy'r helbulon;
Rhaid yw croesi ffordd drygioni,
Trueni plant yr oes,
Rhaid tan flinion, fawr drallodion
I gywir Gristion godi'r groes;
Ffydd iachusol gadwedigol
Hynodol ras y nef
Sy'n taflu pechod o'i awdurdod,
Ni all ymgydfod gydag ef.

Golwg ar yr Iesu gwaedlyd
O dan ein pwn yn dwyn ein penyd
A weithia ynom edifeirwch,
Ufudd-dod gwir a diolchgarwch;
Gweld rhinweddol waed aberthol,
Offrymol, llawn o ffrwyth,
A gweld y Meichiau'n dioddef poenau
O dan ddialeddau Adda a'i lwyth,
Cael amlygiad a datguddiad
O gariad Iesu gwiw
A bair i greulon galed galon
Y mab afradlon fynd yn friw.

Cyd-ddylem ninnau holi'n helaeth
Beth yw gwreiddyn ein tystiolaeth;
A welwn achos gwirioneddol
Yma i ganu mawl plygeiniol?
Rhyfedd odiaeth yw cnawdoliaeth,
Dynoliaeth Mab Duw ne',
Gwir ail Adda, llew o Jwda
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;
Moliant, moliant a gogoniant
Dda lwyddiant yn ddi-lyth,
Halelwia! Halelwia!
I'r Oen fu ar Galfaria fyth.

Dyma destun cân odidog,
Sef goddefaint Iesu'n T'wysog,
Ni fedd un sant na seraff purwyn
O fewn y nef ragorach testun;
Holl ufuddion weision Iesu
Sy'n pyncio canu pêr,
Cof sy'n ddiau am ei glwyfau
Yng nghôr y seintiau yng ngaer y sêr!
Bydd gorfoledd pur diddiwedd
A chlod i'w fawredd fe,
Effeithiol ffrwythau o les ei loesau
Sy'n cynnau holl ganiadau'r ne'!

DAVID THOMAS ('Dafydd Ddu Eryri' 1759 – 1822)

WELE CAWSOM Y MESEIA

WELE cawsom y Meseia,
Cyfaill gwerthfawroca' 'rio'd;
Darfu i Moses a'r proffwydi
Ddweud amdano cyn ei ddod:
Iesu yw, gwir Fab Duw,
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
Aeth i'r lladdfa yn ein lle,
Swm ein dyled fawr a dalodd
Ac fe groesodd filiau'r ne';
Trwy ei wa'd, inni ca'd
Bythol heddwch a rhyddhad.

Ca's cyfiawnder ei foddloni,
Ca's y gyfraith ei chwblhau,
Duw a minnau fu'n elynol,
Yn heddychol gwnaeth y ddau;
Fe wnaeth ben, nawr mae'r llen
Wedi'i rhwygo o'r ddae'r i'r nen.

Mil a Mwy o Emynau

Dyma gyfaill haedda'i garu,
A'i glodfori'n fwy nag un:
Prynu'n bywyd, talu'n dyled,
A'n glanhau â'i waed ei hun:
Frodyr, dewch, llawenhewch,
Diolchwch iddo, byth na thewch!

Nawr mae yn y nefoedd uchod
Yn par'toi i'w briod le,
Pan ddêl hon i fod yn aeddfed,
Hi gaiff fyned ato fe;
Fe a'i tyn, fyny i'r bryn,
Lle 'roedd ei chalon hi cyn hyn.

Pechod, blinder a phob gelyn
A ffy wedyn byth i ffwrdd,
Cawn ddiddanwch a llawenydd,
Ni ddaw cystudd mwy i'n cwrdd,
Cawn mewn hoen, byth heb boen,
Ganu concwest gwaed yr Oen.

DAFYDD JONES o Gaeo (1711 – 77)

CAROL Y GENI

WELE y tragwyddol Air
Yn un bach ar wely gwair,
Yn yr ystabl gyda Mair,
Halelwia!

Wele y bugeiliaid tlawd
Yn y preseb yn cael brawd,
Yn addoli Duw mewn cnawd,
Halelwia!

Wele ddoethion yn y dref
Wedi dod i'w geisio ef,
Gwelsant seren yn y nef,
Halelwia!

Clywch y dorf angylion glân
Yn rhoi'r nef i gyd ar dân,
Canu maent eu newydd gân,
Halelwia!

Wele hedd rhwng Duw a dyn,
Nef a daear sy'n gytûn,
Yn y man daw pawb yn un,
Halelwia!

W. NANTLAIS WILLIAMS ('Nantlais' 1874 – 1959)

Y BORE HWN, DRWY BURAF HEDD

Y BORE hwn, drwy buraf hedd,
Gwir sain gorfoledd sydd
Ymhlith bugeiliaid isel-fri,
Cyn torri gwawr y dydd.

Gwrandawed pob pechadur gwan
Sy'n plygu dan ei bla,
Angylion nef, â'u llef yn llon
Yn dwyn newyddion da.

I Fethlem Jwda, dyma'r dydd,
Daeth newydd da o'r ne',
Duw ymddangosodd yn y cnawd,
Ein brawd, yn dlawd ei le.

Mewn preseb ych, a'i ddrych yn wael,
Yr Iesu hael a roed,
'R hwn oedd yn Llywydd nef a llawr,
Ac Arglwydd mawr erioed.

O wele'r Bod sy'n dal y byd,
Yn fud ar lin ei fam;
Newydd ei eni'n nawdd i ddyn,
Yn hÿn nag Abraham.

Mil a Mwy o Emynau

Rhyfeddwn byth, tra byddwn fyw,
Ddaioni Duw i ddyn;
Yr Iesu'n aberth roed i ni,
Trwy nodded Tri yn Un.

JOHN THOMAS, Pentrefoelas (1742 – 1818)

LLAIS Y GWAREDWR

YLLEF a ddaeth yn sylwedd
Yn y Gair.

Duw cadarn yn ymgeledd
Yn y Gair.

Ffordd newydd wnaed yn union
I mewn i fywyd dynion;
Daeth Crist a'i holl fendithion
Yn y Gair.

O, llawenhaed pob calon
Yn y Gair.

Gogoniant ymddangosodd
I'r holl fyd;
Pob cnawd ynghyd a'i gwelodd
Trwy'r holl fyd.
Pant gormes a gyfodir,
Bryn balchder a ostyngir,
A gwyrni dyn gymhwysir
Trwy'r holl fyd,
A llwybyr Crist unionir
Trwy'r holl fyd.

Os gwellt oedd holl ogoniant
Teulu dyn,
Gair Duw yn awr yw llwyddiant
Teulu dyn.
Ni wywa mwy mo'r gwelltyn;
Ni syrthia mo'i flodeuyn;
Gair Crist a gynnal wreiddyn
Teulu dyn,
Ac Ysbryd Crist a feithrin
Deulu dyn.

Yr Efengyles Seion,
Dros dy Dduw,
Dring rhagot i'r uchelion
Dros dy Dduw.
Holl nerth dy lais dyrchafa,
O, cod dy lef, nac ofna,
Yn llawen nawr cyhoedda'r
Neges wiw;
Dwed wrth ddinasoedd Jwda:
'Wele'ch Duw!'¹

HAYDN DAVIES (1914 – 2006)

CAROL PLYGAIN

YM Methlem datguddiwyd y Gair a broffwydwyd
ganrifodd cyn ganwyd Mab Duw;
ond nid yw ef yno, trwy'r byd mae yn crwydro
gan geisio rhoi'i law ar ein llyw;
cans tyfodd y Bachgen a gwelodd ein hangen,
anturiodd yn llawen ei ras,
gan roi inni'r cyfan ohono ei hunan
trwy weithio'n y Winllan fel gwas.

Dros gyd-ddyn bu'n brwydro, ond ca'dd ei ddibrisio,
a'i ddedfryd oedd 'i hoelio ar groes,
er iddo ledaenu ei gariad o'i ddeutu,
a'i fryd ar waredu 'mhob oes:
rhoed Mab Duw, yr unplyg, 'rôl dioddef y dirmyg,
mewn bedd wedi'i fenthg gan ddyn;
ond nid yw ef yno, gadawodd ei amdo
heb geisio cael clod iddo'i hun.

¹ Seiliwyd y garol ar Eseia 40 : 3 – 9.

Mil a Mwy o Emynau

Daw atom yn dawel, fel miwsig yr awel,
yn gyson i ddiwel ei hedd;
trwy ddyfnder ei gariad derbyniwn wahoddiad
dihafal ein Ceidwad i'w wledd:
boed inni ei ganfod a dod i'w adnabod
yn Gyfaill diddarfod drwy'n hoes,
gan chwennych ei gwmni a dathlu ei eni
trwy foli Gorchfygwr y groes.¹

ALICE EVANS, Henllan Amgoed

CAROL NADOLIG

YM Methlem Efrata y Llew o Lwyth Jwda
A ddaeth yn Feseia i'w fyd;
Mewn oes mor ysgeler cyflawnwyd yr amser,
Caed crëwr pob cryfder mewn crud;
Hwn gafodd ei eni yng nghanol trueni,
Dioddefodd ein cyni a'n cur
I ddwyn caethion Satan i ryddid anniflan
A gwneud bywyd aflan yn bur.

*Llu'r nefoedd gadd syndod wrth weled y Duwdod
Yn dyfod i'n gwyddfod fel gwas;
A ninnau ryfeddwn, ein mawl iddo roddwn,
Clodforwn, mawrygwn ei ras.*

Caiff Joseff ddal Meichiau dynolryw'n ei freichiau,
Y Meichiau sy'n dwyn beiau'r byd,
A Mair ddod i nabod bachgennyn y Duwdod,
Rhyfeddod y gofod i gyd;
Daw llygaid yr Iesu i weld byd y pechu
Y daeth i'w waredu mor wiw,
Y llygaid fu'n syllu i ffynnon y gallu,
A'r tân sy'n gwyniasu yn Nuw.

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Wrecsam a'r Fro 2011.

Tywysog y bywyd mewn beudy a gafwyd
Ei dras a enhuddwyd dros dro;
Daeth Duw tragwyddoldeb i orwedd mewn preseb
Caed holl-bresenoldeb mewn bro;
Fe'i ganwyd yn geidwad; caed brawd i'r amddifad,
Mabwysiad i'r lleiddiad, a lle
Byth bythoedd mewn urddas fel deiliad ei deyrnas
Mewn palas yn ninas y ne'.¹

D. G. MERFYN JONES, Tywyn (1916 – 98)

DOETHION A BUGEILIAID

Yn dawel olau yn y nos
Symudai seren glir
Trwy oerni du y nefoedd wag,
Seren y cariad hir.
Yn llwybyr hon y teithiai tri
O bellter mawr y byd,
Yn ddoeth yn dilyn tua'r fan,
At faban Duw mewn crud.

Ar faes y nos y wlad gerllaw
A thwllwch oer y lle
Yr oedd bugeiliaid wrth eu gwaith
Dan lygad maith y ne'.
A golau angel arnynt hwy
Ddisgleiriodd yno'n fawr,
A dychryn enbyd, ofnau dwfn,
A'u bwriodd hwy i lawr.

Ond neges addfwyn, neges Duw
Dawelodd boen eu braw,
A lliw yr angel lanwai'r nos
Fel cawod aur o law.
'Ewch tua Bethlehem yn awr
Ar wawr y bore mud,
Ewch at y preseb at y Mab,
At Dduw a ddaeth i'r byd.'

¹ Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – Nedd a'r Cyffiniau 1994.

Mil a Mwy o Emynau

Ar las y dydd at breseb Mair
Yng ngwair y stabl dlawd
Y closiodd dynion gwych a llwm,
I weled Duw o gnawd.
Mae'r uchel fore wedi dod
Ar ôl yr aros hir,
Mae golau'n tyfu yn y nos,
A bywyd trwy ein tir.

GWYN THOMAS

YN GYNNAR HEDDIW'R BORE

YN gynnar heddiw'r bore,
O dewch i gyd
O bob cwr o'r byd,
Yn gynnar heddiw'r bore,
O dewch i Fethlem dref yn awr,
O dewch i Fethlem dref.

A rhown ein rhoddion gorau
I Faban Mair
Ar ei wely gwair,
A rhown ein rhoddion gorau
A'n cariad iddo ef yn awr,
A'n cariad iddo ef.

Hosanna heddiw'r bore,
O canwn glod
I'r anwyla'n bod;
Hosanna heddiw'r bore,
I Iesu, Frenin nef, yn awr,
I Iesu, Frenin nef.

AMY PARRY-WILLIAMS (1910 – 88)

CAROL

YN nyddiau'r teyrn gaed draw
Blentyn Mair, mewn preseb,
Hwn fyddai Ceidwad dyn
Maes o law.

Yn y bryniau draw,
Roedd gwythiennau haearn,
A wnaethpwyd yn hoelion
 Maes o law.

Ar y bryniau pell draw,
Llwyni drain a dyfent
Plethwyd o'u gwraidd goron
 Maes o law.

I'r hen fryniau pell draw,
Dynion daeth â'u bwyell
I naddu o'r pren groes,
 Maes o law.

O llawenhawn mewn ffydd,
Ein Crist a orchfygodd,
Pob croes, a phob anfri
 Daeth y dydd!

Imaniwel yw ef!
Nid yn y bryniau pell
Ond yma lle rydym –
 Wele'r nef.

CYRIL G. WILLIAMS

YN NHAWEL WLAD JWDEA DLOS

YN nhawel wlad Jwdea dlos
Yr oedd bugeiliaid glân
Yn aros yn y maes liw nos
 I wyllo'r defaid mân;
Proffwydol gerddi Seion gu
 Gydganent ar y llawr,
I ysgafnhau y cyfnos du,
 Gan ddisgwyl toriad gwawr.

Mil a Mwy o Emynau

Ar amnaid o uchelder nef
Dynesai angel gwyn,
Ac mewn disgleirdeb safai ef
O flaen eu llygaid syn;
Dywedai, 'Dwyn newyddion da
Yr wyf i ddynol-ryw,
Fe anwyd ichwi Geidwad rhad,
Sef Crist yr Arglwydd Dduw.'

Ac ebrwydd unai nefol lu
Mewn hyfryd gytgan bêr,
Nes seinio moliant ar bob tu
O'r ddaear hyd y sêr:
'Gogoniant yn y nefoedd fry
I Dduw'r goruchaf Un;
Tangnefedd ar y ddaear ddu,
Ewyllys da i ddyn.'

Rhoed newydd dant yn nhelyn nef
Pan anwyd Iesu Grist;
A thelyn aur o lawen dôn
Yn llaw pechadur trist.
Telynau'r nef sy'n canu nawr
'Ewyllys da i ddyn';
A chaned holl delynau'r llawr
Ogoniant Duw'n gytûn.

ELLIS ROBERTS ('Elis Wyn o Wyrfai' 1827 – 95)